Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol

Datganiad

[✂] Wedi'i adolygu ar gyfer ei gyhoeddi

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: Dydd Mercher, 19 Mehefin 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg 1
2. Cefndir 4
3. Ein hadolygiad o’r Canllawiau 9
4. Newidiadau i’r prosesau cydymffurfio a gorfodi 50
5. Camau Nesaf 59

1. Trosolwg

Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau terfynol ynghylch y newidiadau rydym yn eu gwneud i'n Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau Rhanbarthol a Rhaglenni Rhanbarthol, a'r prosesau cydymffurfio ac adrodd cysylltiedig.

Mae cynhyrchu rhaglenni teledu y tu allan i Lundain yn rhan hollbwysig o'r darlledu yn y DU. Mae'n helpu i wasgaru ac i ysgogi buddsoddiadau a chyfleoedd swyddi yn y sector ar draws y DU. Mae hefyd o fudd i wylwyr drwy sicrhau amrywiaeth eang o raglenni a safbwyntiau golygyddol.

Er mwyn helpu i hybu hyn, mae Ofcom yn gosod cwotâu ar ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus [1] i sicrhau bod cyfran addas o'u rhaglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25. Rydym ni'n cyhoeddi canllawiau i helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i benderfynu pa raglenni sy'n cyfri fel rhai a wneir y tu allan i Lundain.

Yn 2017, fe wnaethom lansio adolygiad o'n Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau Rhanbarthol a Rhaglenni Rhanbarthol i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol yn y diwydiant creu rhaglenni sydd ohoni heddiw.[2] Yn dilyn canfyddiadau cam cyntaf yr adolygiad hwn, aethom ati i ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau ym mis Rhagfyr 2018.[3] Mae'r datganiad hwn yn ystyried amrywiaeth eang o ymatebion.

Bydd ein pecyn o newidiadau'n golygu bod mwy o fanylder ac atebolrwydd yn y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Bydd hynny'n golygu ei bod yn cyflawni bwriad y polisi'n well sef cefnogi ac ysgogi'r economïau creadigol yng ngwledydd ac yn rhanbarthau'r DU.

Ein penderfyniad – yn gryno

- **Bydd y meini prawf sy'n diffinio beth ydy cynhyrchiad rhanbarthol yn cael eu cryfhau.** Bydd y Canllawiau diwygiedig yn nodi'n glir, er enghraifft, wrth fodloni'r maen prawf i gael 'canolfan sylweddol'[4] y tu allan i'r M25, y dylai'r cynhyrchiad gael ei reoli o'r ganolfan honno, a bod yn rhaid bodloni pob elfen o'r maen prawf. Hefyd, byddwn yn egluro y dylai'r cyfrifiadau gynnwys cyllid trydydd parti, ond nid y ffi cynhyrchu, wrth benderfynu a yw cynhyrchiad yn bodloni'r maen prawf y dylai o leiaf 70% o'r gyllideb gael ei wario y tu allan i'r M25.
- **Ni fydd cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo yn cyfrif at y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol.** Rydym ni'n dal o'r farn nad yw cynnwys hunan-hyrwyddo gan y darlledwyr yn cynnig llawer o werth o ran datblygu amcan y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.

[1] Y BBC, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5
[2] Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus: Ymgynghoriad, 2017, tudalen 41
[3] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol, Ymgynghoriad, 2018
[4] Mae rhagor o wybodaeth am bob un o'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol ym mharagraff 2.5 yn Adran 2

- **Bydd gwybodaeth fanwl am nodau pob un o'r meini prawf, a sut dylen nhw gael eu rhoi ar waith, yn cael ei hychwanegu at y Canllawiau.** Bydd y deunydd esboniadol yn helpu rhanddeiliaid i ddehongli a defnyddio’r meini prawf, ac yn adlewyrchu eu bwriad yn well. Er enghraifft, mae'r Canllawiau diwygiedig yn nodi'n glir mai nod y maen prawf i sicrhau bod o leiaf 50% o gostau staff cynhyrchu’n cael ei wario ar weithwyr y tu allan i’r M25 yw cynnig cyfleoedd swyddi creadigol go iawn ar draws amrywiol lefelau o swyddi uwch ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn dilyn adborth gan ymatebwyr, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y blaen yn y Canllawiau.
- **Bydd archwiliadau yn y fan a’r lle a threfn glir ar gyfer darparu adroddiadau yn cael eu cyflwyno i wella cydymffurfiad a helpu gyda gorfodi.** Rydym eisoes wedi dechrau casglu gwybodaeth ychwanegol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddangos yn gliriach sut mae cynyrchiadau wedi bodloni'r meini prawf. Byddwn hefyd yn gwella ein cyhoeddiadau drwy eu gwneud yn fwy rhyngweithiol, cynnal archwiliadau yn y fan a’r lle i weld sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith, a byddwn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol o fewn y Canllawiau ar sut mae cwyno.
- **Byddwn yn bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigiwyd i'r categorïau y dylai cynyrchiadau gael eu neilltuo iddyn nhw.** Rydym ni’n creu dau gategori neilltuo newydd: ‘Sawl-rhanbarth yn Lloegr’ a ‘Sawl-gwlad y tu allan i Loegr’ i wneud y broses adrodd yn fwy tryloyw ac i alluogi'r BBC a Channel 4 i gynnwys mwy o'u cynyrchiadau rhanbarthol yn y cwotâu hyn ar gyfer ardaloedd gwahanol yn y DU.
- **Bydd bwriad polisi'r drefn ar gyfer cynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol yn cael ei wneud yn amlwg yn y Canllawiau.** Bydd hyn yn helpu i atgoffa defnyddwyr y dylai'r Canllawiau gael eu defnyddio gan ddilyn y meddylfryd hwn.
- **Bydd y Canllawiau ar eu newydd wedd yn dod i rym ar gyfer rhaglenni sy’n cael eu darlledu o fis Ionawr 2021 ymlaen.** Rydym ni’n cydnabod bod cyfnod hir yn aml cyn cwblhau rhaglenni, ac mae rhai o’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod cyfran sylweddol o'u hamserlenni ar gyfer 2020 eisoes wedi cael ei chomisiynu. Felly, rydym ni wedi penderfynu symud dyddiad gweithredu’r Canllawiau hyn i fis Ionawr 2021. Byddwn hefyd yn caniatáu eithriadau ar gyfer teitlau a fydd yn cael eu darlledu yn 2021, ond a gafodd eu comisiynu cyn 1 Gorffennaf 2019.
- **Byddwn yn casglu rhagor o dystiolaeth ynghylch ein bwriad i fynnu bod y ganolfan sylweddol yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd.** Er bod rhai rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynnig hwn, roedd adborth gan rai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn awgrymu y gallai'r newid hwn gael effaith niweidiol ar y gwaith o ddatblygu canolfannau cynhyrchu yn y gwledydd a’r rhanbarthau, a gwneud i gwmnïau cynhyrchu beidio ag agor. Rydym yn dal yn meddwl y gallai'r newid hwn arwain at sector cynhyrchu mwy cynaliadwy yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn y tymor hwy, Ond, byddwn yn mynd ati’n gyntaf i gasglu rhagor o dystiolaeth gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i asesu effaith hyn cyn penderfynu a ddylid ei roi ar waith.

- **Byddwn ni’n caniatáu i'r newidiadau i'r Canllawiau ddod i rym cyn ystyried a ddylid cynnal arolwg yn y diwydiant.** Roeddem ni wedi bwriadu cynnal arolwg yn y diwydiant i gael deall mwy am y gymysgedd o dalent ac adnoddau o Lundain a'r gwledydd a rhanbarthau sy’n cael eu cyflogi wrth wneud a chomisiynu cynyrchiadau rhanbarthol. Wrth ystyried y cyfyngiadau ymarferol rydym ni wedi’u nodi, a safbwyntiau rhai o’r ymatebwyr, ni fyddwn yn cynnal arolwg diwydiant yn syth. Yn hytrach, fe wnawn ni ddisgwyl i'r newidiadau yn y datganiad hwn, a datblygiadau perthnasol y diwydiant, wreiddio. Wedyn, fe awn ati i ystyried defnyddio arolwg i bwyso a mesur sut mae'r diwydiant yn datblygu.

Crynodeb syml ar lefel uchel yn unig yw’r trosolwg hwn. Mae’r penderfyniadau rydym ni wedi eu gwneud a’n rhesymeg ni wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

Crynodeb o’r newidiadau



Ffynhonnell: Ofcom. Sylwer: Mae testun gwyrdd yn dangos y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r drefn

2. Cefndir

Cynyrchiadau a rhaglenni rhanbarthol

2.1 Rhaid i Ofcom sicrhau bod cyfran addas o'r cynyrchiadau y mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus[5] yn eu comisiynu ar gyfer eu darlledu[6] ar y teledu ledled y DU ('rhaglenni rhwydwaith') yn cael eu gwneud yn y DU y tu allan i'r M25, a hefyd ar gyfer y BBC, yn y gwledydd ('cynyrchiadau rhanbarthol[7]').[8] Mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar y gyfran sylfaenol o wariant ac oriau y mae'n rhaid eu neilltuo i gynyrchiadau rhanbarthol. Mae lefel y cwotâu yn amrywio yn ôl darlledwr, ac mae wedi'i nodi yn nhrwydded pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus[9]. Mae Ofcom wedi gosod amodau trwydded hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod eu cynyrchiadau rhanbarthol (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni, a bod eu gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol yn cynrychioli ystod briodol o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25.

2.2 Rhaid i Ofcom sicrhau hefyd fod digon o amser yn cael ei roi i raglenni rhanbarthol sydd o ddiddordeb arbennig i'r bobl sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol sy'n cael y gwasanaeth.[10] Mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni rhanbarthol i BBC One, BBC Two[11] a gwasanaethau Channel 3. Dylai rhaglenni rhanbarthol ddelio â phynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r rhanbarth ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill, er enghraifft buddiannau, pryderon a digwyddiadau rhanbarthol. Mae'r math yma o raglenni'n debygol o adlewyrchu rhannau penodol o wledydd a rhanbarthau'r DU yn uniongyrchol i wylwyr yn yr ardaloedd hyn. Hefyd, dylai bod cyfran briodol o'r rhaglenni hyn yn cael eu gwneud yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth.

2.3 Bwriad y dyletswyddau statudol ar raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol oedd creu "canolfannau cynhyrchu rhanbarthol cadarn", sy'n gallu "creu swyddi, cyfleoedd hyfforddiant a phyrth i'r diwydiannau creadigol ar lefel genedlaethol" a bod

---

[5] Y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n rhwym wrth y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yw'r BBC, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5. Felly, pan fyddwn ni'n defnyddio'r term 'y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus' yn y ddogfen hon, dyma'r darlledwyr rydym yn cyfeirio atyn nhw oni bai ein bod yn nodi fel arall. Nid yw S4C yn gorfod dilyn y rhwymedigaethau hyn.

[6] Neu, yn achos Channel 3, eu darlledu mewn mwy nag un rhanbarth.

[7] Mae'r term 'cynyrchiadau rhanbarthol' yn cael ei nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a phan fyddwn ni'n defnyddio'r term hwn, rydym ni'n cyfeirio at raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU y tu allan i'r M25, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[8] Fel sydd wedi'i nodi yn adrannau 286 a 288 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf') a Chytundeb Fframwaith a Siarter y BBC, gweler Atodlen 2, paragraff 7 Cytundeb Fframwaith y BBC

[9] I gael rhagor o wybodaeth am lefelau'r cwotâu hyn, edrychwch ar y ddogfen Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, mis Rhagfyr 2018 tudalennau 8-9

[10] Adran 287 o'r Ddeddf ac Atodlen 2, paragraff 6 yng Nghytundeb Fframwaith y BBC

[11] Mae'r amodau hyn ar gyfer BBC One a BBC Two gyda'i gilydd. Mae gan y BBC ddyletswydd hefyd i ddarparu rhaglenni newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One. O dan Sianel BBC Scotland newydd, mae rhaglenni penodol i'r Alban ar BBC Two Scotland wedi dod i ben ac yn cael eu darlledu ar y sianel newydd yn lle hynny.

dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yn benodol yn gallu "helpu i fynd i'r afael ag anghydbwysedd daearyddol yn y diwydiant cynhyrchu cenedlaethol ar gyfer y teledu".[12]

2.4 Mae Ofcom wedi cyhoeddi *Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol: Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus* ('y Canllawiau').[13] Mae'r canllawiau'n egluro sut rydym ni wedi dehongli'r dyletswyddau statudol. Mae'n cynnwys ein diffiniadau o gynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol, ac yn egluro sut rydym ni'n disgwyl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â'r cwotâu, sut dylai cynyrchiadau gael eu neilltuo i ardaloedd daearyddol penodol, a sut rydym ni'n monitro cydymffurfiad â'r dyletswyddau. Bwriad hyn yw helpu i sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni eu cwotâu mewn ffordd gyson. Mae'n ofynnol bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dilyn y Canllawiau wrth gydymffurfio â rhwymedigaethau eu trwydded

2.5 Mae'r Canllawiau yn nodi, er mwyn cyfrannu at y cwota cynhyrchu rhanbarthol fesul awr, bod yn rhaid i deitlau fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:

- *"mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, uwch staff personél sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, ac uwch staff personél sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu Adolygiad o'r Canllawiau;*
- *mae'n rhaid gwario o leiaf 70% o'r gyllideb cynhyrchu (gan eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau a chostau hawlfraint) yn y DU y tu allan i'r M25; ac*
- *mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cynnwys at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25."*

2.6 Yn 2017, fe wnaethom ni gyhoeddi ein bwriad i adolygu'r Canllawiau.[14] Roeddem ni'n teimlo ei bod yn angenrheidiol cynnal yr adolygiad am sawl rheswm, gan gynnwys: y newidiadau yn y maes cynhyrchu ar gyfer teledu ers i'r Canllawiau gael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2004; y datblygiadau parhaus yn y farchnad ar y pryd fel cynlluniau Channel 4 i agor 'Pencadlys Cenedlaethol' a dwy 'is-ganolfan greadigol' lai y tu allan i Lundain; y drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC a ddaeth i rym yn 2017; i asesu sut mae'r Canllawiau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol; a'n hymrwymiad yn y Canllawiau i fonitro'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u creu'n wreiddiol gan gynhyrchwyr rhanbarthol a chynhyrchwyr yn Llundain.

---

[12] A New Future for Communications 2000, paragraffau 4.46 a 5.7.1-5.7.2
[13] Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol: Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, 2010.
[14] Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus: Ymgynghoriad, 2017, tudalen 41

2.7 I adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad ac i ddeall sut roedd y Canllawiau'n gweithio yn ymarferol, aethom ati i ymgysylltu â'r diwydiant mewn cyfres o weithdai rhanbarthol a chyhoeddi Cais am Dystiolaeth ym mis Mawrth 2018. [15] Hefyd, fe wnaethom ni gomisiynu gwaith ymgynghori a roddodd ddadansoddiadau i ni allu deall yn well sut mae'r sector cynhyrchu yn perfformio yn y gwledydd a'r rhanbarthau a sut mae hyn wedi newid dros amser.[16]

2.8 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn dangos er bod cefnogaeth gyffredinol yn y diwydiant i'r Canllawiau a sylwedd y tri maen prawf sy'n diffinio cynyrchiadau rhanbarthol, roedd rhai'n pryderu am sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ogystal â chydymffurfio â nhw. Roedd yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn awgrymu bod modd dadansoddi'r Canllawiau mewn gwahanol ffyrdd, ac mai hyn a hyn mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei wneud i oruchwylio'r ffordd mae'r Canllawiau'n cael eu defnyddio. Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen gwella prosesau cwyno a chydymffurfio Ofcom, a phrosesau adrodd yn ôl y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Hefyd, roedd llawer sy'n defnyddio'r Canllawiau am i'r ddogfen fod yn fwy eglur i helpu i sicrhau cysondeb wrth ei dehongli a'i defnyddio.

2.9 Gyda'r canfyddiadau hyn mewn golwg, ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad ('yr Ymgynghoriad') gan nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau, ynghyd ag esboniad, er gwybodaeth, am sut roeddem ni'n bwriadu diwygio ein prosesau cydymffurfio a gorfodi.[17]

2.10 Yn yr Ymgynghoriad, fe wnaethom ni amlinellu ein penderfyniad i ddyfarnu na fyddai'r rhan rhaglenni rhanbarthol o'r Canllawiau yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn. Mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth, prin iawn oedd yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid a'r awydd am newid sylweddol yn y rhan hon o'r Canllawiau, ac felly fe wnaethom benderfynu peidio â chynnig unrhyw newidiadau penodol i'r diffiniadau o raglenni rhanbarthol. Ond, fel yr amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, rydym ni wedi gwneud ambell ddiweddariad technegol i adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC, ac yn nodi y byddai newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn effeithio ar benderfynu a yw'r rhaglenni rhanbarthol wedi cael eu gwneud yn yr ardal sy'n cael y gwasanaeth.[18]

Y datganiad hwn

2.11 Daeth yr Ymgynghoriad i ben ar 27 Chwefror 2019, a chawsom 147 ymateb i gyd. O blith yr ymatebion hyn, roedd 60 yn llythyrau o gefnogaeth ar gyfer ymateb yr Indie Club ac roedd 64 yn ymatebion a oedd wedi'u geirio'n debyg ynghylch talent ar y sgrin. Roedd gweddill yr ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid ar draws y DU gan gynnwys pob un

[15] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol ar gyfer y Teledu: Cais am Dystiolaeth, Mawrth 2018
[16] Oliver & Ohlbaum, Regionality trends within the UK production sector, September 2018
[17] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018.
[18] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018, tudalennau 44-45

o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, Pact, Pwyllgorau Cynghori Ofcom yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, cyrff y diwydiant, cwmnïau cynhyrchu, a thalent lawrydd. Rydym ni wedi ystyried pob un o’r ymatebion hyn wrth lunio ein casgliadau, ac rydym ni wedi cyhoeddi ymatebion nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.[19]

2.12 Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau yn dilyn ein hadolygiad o'r Canllawiau. Mae'n crynhoi'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid mewn ymateb i'r Ymgynghoriad, ac yn nodi'r newidiadau rydym ni wedi penderfynu eu gwneud i'r Canllawiau, yn ogystal â'n prosesau cydymffurfio a gorfodi ein hunain.

Canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

2.13 Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 eu cyngor eu hunain ar y cyd am yr arferion gorau (‘canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus’). Nod y canllawiau yw helpu cynhyrchwyr i ddarparu cynyrchiadau rhanbarthol yn seiliedig ar ddehongliad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o Ganllawiau presennol Ofcom.[20] Rydym ni’n cydnabod y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weld bod hyn yn gymorth i sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu yn gallu cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cytundebol perthnasol, ond cyfrifoldeb y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, wrth gwrs, yw sicrhau bod pob un ohonynt yn cydymffurfio â rhwymedigaethau eu trwydded. Nid yw Ofcom wedi bod yn rhan o adolygu neu gymeradwyo’r canllawiau ar y cyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

2.14 Lle y bo'n briodol, rydym ni wedi ystyried y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar ddehongli’r meini prawf fel mewnbwn ychwanegol i'r Ymgynghoriad, er enghraifft lle mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwyntiau penodol yn eu hymatebion. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw unrhyw gyfeirio yn y datganiad hwn at y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn golygu bod Ofcom yn cymeradwyo'r canllawiau hyn.

Asesiad o’r effaith

2.15 Mae cynnal asesiadau o'r effaith, yn unol â diffiniad 7 o’r Ddeddf, yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio, ac yn dangos pam mae'r opsiwn a gynigir yn cael ei ffafrio. Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi dogfennau am ei ddull o gynnal asesiadau o’r effaith.[21]

2.16 Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr Ymgynghoriad, gan gynnwys yr atodiadau ym mis Rhagfyr 2018[22], yn cyflwyno ein hasesiad o effaith ein cynigion ar randdeiliaid. Mae'r datganiad hwn yn diweddaru'r asesiad yng ngoleuni’r ymatebion ac felly'n cael ei

[19] Ymatebion i’r Adolygiad o’r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018.
[20] Mae'r canllawiau ar y cyd ar gael ar wefannau’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: BBC, ITV, Channel 4, a Channel 5
[21] Better Policy Making: Ofcom’s approach to Impact Assessments, Gorffennaf 2005
[22] Adolygiad o’r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018.

ystyried yn asesiad o effaith ar gyfer ein newidiadau i’r Canllawiau a’r drefn yn gyffredinol.

Asesu’r effaith ar gydraddoldeb

2.17 Rydym ni’n asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac arferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir hwn yn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae wedi'i lunio i asesu a yw ein cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith benodol ar ddefnyddwyr sydd wedi'u gwarchod gan ddeddf cydraddoldeb, i sicrhau nad yw ein polisïau yn gwahaniaethu rhwng gwahanol ddefnyddwyr nac yn peri anfantais iddynt mewn gwahanol ffyrdd. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ein helpu hefyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hunaniaeth.

2.18 Nid yw'n amlwg i ni y bydd canlyniad ein hadolygiad o'r Canllawiau yn debygol o gael unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd effaith unrhyw ganlyniad yn niweidio unrhyw grŵp o gymdeithas. Nid ydym ychwaith yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiadau effaith ar wahân mewn perthynas â chydraddoldeb y rhywiau neu hil, nac mewn perthynas â'n Cynllun Cydraddoldeb a’n Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yng Ngogledd Iwerddon.

3. Ein hadolygiad o'r Canllawiau

3.1 Roedd yr adborth gan randdeiliaid mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth a'n gweithdai diwydiant yn awgrymu nad oedd angen i ni, yn y bôn, ail-ddylunio'r system ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Yn hytrach, roedd yn awgrymu bod angen gwneud newidiadau i sicrhau bod y Canllawiau'n cael eu dilyn fwy wrth wneud cynyrchiadau rhanbarthol, a bod angen i'r ddogfen fod yn fwy clir i helpu i sicrhau cysondeb wrth ei dehongli a'i defnyddio. Roedd y prif bryderon a glywsom gan randdeiliaid yn canolbwyntio ar achosion lle roedd y Canllawiau'n cael eu defnyddio'n anghywir, cynyrchiadau lle roedd y Canllawiau'n cael eu defnyddio'n gywir ond nad oeddent yn cyflawni bwriad y polisi, a rôl Llundain mewn cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Roedd pryderon hefyd ynghylch prosesau casglu data ac adrodd yn ôl gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cyhoeddiadau Ofcom, a phrosesau monitro a chwynion Ofcom.

3.2 Gyda'r rhain mewn golwg, roedd y newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau roeddem ni'n ymgynghori yn eu cylch, yn canolbwyntio ar sut gallem ni sicrhau trefn fwy trylwyr ac atebol a fyddai'n sicrhau bod cynyrchiadau rhanbarthol yn cyflawni bwriad y polisi.

3.3 Mae'r adran hon yn nodi ein dadansoddiad o ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad a'n penderfyniadau am y newidiadau rydym ni'n eu gwneud i'r Canllawiau. Gan gymryd pob cynnig yn ei dro, byddwn yn mynd ati'n gyntaf i nodi ein safbwynt o ran yr ymgynghoriad, ac wedyn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid, ac yn olaf ein penderfyniad (gan gynnwys ein hymateb i sylwadau rhanddeiliaid perthnasol). Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym ni wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall rydym wedi'i chasglu.

3.4 Mae'r Canllawiau ar eu newydd wedd ar gael yn Atodiad 1. Rydym ni hefyd wedi cyhoeddi'r Canllawiau ar eu newydd wedd yn y man perthnasol ar ein gwefan.[23] Mae Adran 5 y ddogfen hon yn esbonio pa bryd y daw'r Canllawiau hyn i rym.

Cynnwys datganiad am fwriad y polisi

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.5 Roeddem ni'n cynnig dweud yn glir ar ddechrau'r Canllawiau beth yw amcan polisi cynyrchiadau rhanbarthol. Roeddem ni'n teimlo y byddai hyn yn fodd i allu dehongli'r Canllawiau, ac y byddai'n helpu i lywio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn well mewn achosion pan fydden nhw o bosib yn cael trafferth penderfynu a yw'r ffordd maen nhw'n bwriadu mynd ati i fodloni'r meini prawf yn briodol ai peidio.

[23] Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynyrchiadau rhanbarthol ar gyfer teitlau sy'n cael eu darlledu o 2021 ymlaen

Crynodeb o’r sylwadau

3.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn ac yn meddwl y byddai hyn yn ddefnyddiol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac i’r cynhyrchwyr wrth ddehongli'r meini prawf. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newid hwn ond am i ni fynd gam ymhellach hefyd. Roedd hyn yn cynnwys yr Indie Club, a oedd am weld testun yn cael ei ychwanegu at nod dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol i annog defnyddio mwy ar gwmnïau lleol, cyflogi mwy o dalent lefel uwch yn y gwledydd a'r rhanbarthau, y gwaith cyn-gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu i ddigwydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a mwy o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n comisiynu i fod wedi’u lleoli y tu allan i Lundain. [24]

3.7 Wrth ystyried nod polisi ynghylch dyletswyddau rhaglenni rhanbarthol, dywedodd STV y byddai'n hoffi i ni ddileu’r term ‘diddordeb lleol’. Roedd yn dadlau nad oedd yn rhaid i raglenni rhanbarthol fod am gymunedau lleol er mwyn iddyn nhw fod yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd maen nhw i fod i'w gwasanaethu, a gall hyn gyfyngu ar ystod ac amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael. Felly, roedd yn awgrymu y dylid dileu’r term, ac y dylem ni fynnu yn hytrach bod y rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol.[25]

Ein penderfyniad

3.8 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y byddai ychwanegu hyn at y Canllawiau yn fuddiol wrth roi’r meini prawf ar waith, ac rydym ni'n parhau i gredu bod hynny'n angenrheidiol. Y Senedd oedd yn gyfrifol am bennu nodau’r ddwy set hyn o ddyletswyddau. Nid ydym ni’n credu y byddai'n briodol nodi rhagor o fanylion ynghylch sut dylid gwneud rhaglenni, tu hwnt i'r hyn rydym wedi’i nodi yn y meini prawf. Yn ogystal, nid ydym ni’n credu mai dim ond cwmnïau lleol ddylai allu gwneud cynyrchiadau rhanbarthol, oherwydd byddai hyn yn golygu bod y drefn bresennol yn llai hyblyg. Byddem ni’n nodi hefyd nad oes gan Ofcom unrhyw rôl i'w chwarae o ran pennu lleoliad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n comisiynu. O'r herwydd, rydym ni wedi penderfynu cynnwys y geiriad roeddem ni wedi'i gynnig yn ein hymgynghoriad, yn y Canllawiau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.

3.9 Ar gyfer rhaglenni rhanbarthol, rydym ni’n derbyn yr hyn a ddywed STV fod y ffaith ein bod ni’n mynnu bod rhaglenni o'r fath ‘o ddiddordeb lleol’ yn gallu cyfyngu ar y rhaglenni sydd ar gael. O'r herwydd, rydym ni wedi penderfynu diwygio geiriad y nod i ddarllen fel a ganlyn “[…]rhaglenni sy'n berthnasol iddyn nhw ac i’r ardaloedd lle maen nhw’n byw”. Rydym ni'n credu bod hyn yn adlewyrchiad cywir o fwriad y gofynion.

[24] Indie Club, tud 3
[25] STV, tud 3

Newidiadau i'r meini prawf: Canolfan sylweddol

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.10 Roeddem ni'n cynnig tri newid i'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Yr un cyntaf oedd mynnu y dylai canolfan sylweddol fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd. Diben y newid hwn oedd atal swyddfeydd dros dro rhag bod yn gymwys ar gyfer y maen prawf hwn. Roeddem ni'n teimlo y byddai'r newid yn ennyn mwy o ffydd yn y diffiniad o'r maen prawf, ac yn annog darlledwyr i fabwysiadu safbwynt mwy tymor hir o'r ffordd maen nhw'n comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, roeddem ni'n sylweddoli y gallai'r newid hwn newid cydbwysedd y cwmnïau sy'n cael eu comisiynu i wneud cynyrchiadau rhanbarthol, a rhwystro cwmnïau sefydledig rhag mynd ati i sefydlu swyddfeydd dros dro neu rai newydd parhaol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

3.11 Roedd y ddau newid arall a gynigiwyd yn newidiadau esboniadol er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cynhyrchiad dan sylw gael ei wneud yn y ganolfan sylweddol honno, a bod yn rhaid diwallu holl elfennau'r maen prawf. Nod y newidiadau hyn oedd helpu i sicrhau bod y maen prawf yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad.

3.12 Roeddem ni hefyd yn cynnig darparu rhywfaint o nodiadau esboniadol i ateb y cwestiynau penodol sy'n cael eu codi gan randdeiliaid am y maen prawf hwn.

Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid a'n penderfyniadau

Bod yn weithredol cyn y pwynt comisiynu

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.13 Y cynnig hwn ar gyfer newid a gafodd yr amrywiaeth eang o sylwadau a barn ymatebwyr. Roedd y rheini sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n dueddol o gefnogi'r newid a gynigiwyd, ac roedd eraill, fel rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn anghytuno â hyn.

3.14 Ymysg y rheini a oedd yn cefnogi'r newid oedd yr Indie Club, STV, Directors UK a Phwyllgorau Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. [26] Roedd llawer yn gadarnhaol y byddai'r newid yn helpu i rwystro swyddfeydd dros dro rhag cyfri tuag at y maen prawf, a soniodd rhai y dylai hyn olygu y byddai cynyrchiadau rhanbarthol yn arwain at bresenoldeb mwy parhaol wrth fodloni'r maen prawf hwn. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo y byddai'r newid yn cyfleu'n well beth yw bwriad y polisi.[27]

3.15 Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r newid yn cydnabod y gallai fod anfanteision posib i'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd

[26] Indie Club, tudalennau 8-11; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 2; Pwyllgor Cynghori Cymru, tud. 2; Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 3; STV, tud. 3; Directors UK, tudalennau 1-2.
[27] Llywodraeth Cymru, tud 2

Iwerddon a ddywedodd y gallai hyn o bosib rwystro cwmnïau rhag sefydlu canolfannau newydd. Ond, at ei gilydd, roedden nhw'n teimlo bod newid o'r fath yn angenrheidiol ac ystyried y buddion posib, a dywedon nhw hefyd y byddai gan gynyrchiadau yr opsiwn o hyd i fodloni'r ddau faen prawf arall er mwyn cyfri fel rhai rhanbarthol.[28] Dywedodd yr Indie Club y gallai'r newid leihau nifer y cynyrchiadau sy'n bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Ond, roedd yn braf gwybod y gallai Ofcom fonitro hyn dros amser, a nododd y dylai Ofcom ystyried gwneud y maen prawf yn orfodol os yw'n gostwng gormod.[29]

3.16 Roedd STV, TAC a Phwyllgor Cynghori Cymru yn teimlo, er mwyn i'r newid hwn fod yn effeithiol, fod angen i ni fynd gam ymhellach a mynnu y dylai'r ganolfan sylweddol fod ar waith am gyfnod penodol ymlaen llaw.[30] Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru yn teimlo bod cyfnod o 18 mis yn rhesymol.

3.17 Ar y llaw arall, roedd y BBC, ITV, Channel 4 a Viacom International Media Networks /Channel 5 ('Channel 5') yn anghytuno â'r cynnig hwn. Ar y cyfan, roedden nhw o'r farn y gallai hyn rwystro cwmnïau rhag ceisio sefydlu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a fyddai'n mynd yn groes i nod y drefn. Yn wir, dywedodd y BBC y gallai'r newid effeithio ar ddatblygiad ecosystemau cynhyrchu yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn gallu manteisio ar fuddsoddiadau strwythurol mawr ac felly angen dibynnu ar ddatblygiad canolfannau sylweddol newydd i gefnogi comisiynau newydd neu adleoli cyfresi sydd eisoes yn bodoli.[31]

3.18 Roedd Channel 4 o'r un farn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi cwmnïau sy'n awyddus i agor swyddfeydd newydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan eu bod yn helpu i gefnogi twf cynaliadwy dros y tymor hir ym maes cynhyrchu y tu allan i Lundain.[32] Dywedodd fod symudiadau o'r fath yn gallu helpu i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth a fydd, yn eu tro, yn gallu helpu i dyfu a datblygu cronfa fwy o dalentau medrus iawn.[33] Esboniodd Channel 4 ei fod yn credu bod agor swyddfa newydd, sy'n gwbl weithredol â staff parhaol, heb y sicrwydd o gael comisiwn, yn ormod o risg ariannol i'r cwmnïau a oedd yn gysylltiedig.[34] Roedd ymateb ITV yn cefnogi'r safbwynt hwn hefyd, ac yn nodi pa mor anodd y gall fod i gwmnïau sy'n awyddus i ddechrau busnes newydd, ac y byddai'r cynnig hwn yn ei wneud yn anoddach fyth.[35]

3.19 Roeddem ni'n sylweddoli yn y ddogfen Ymgynghori y gallai'r newid hwn gael effaith negyddol o ran rhwystro cwmnïau sefydledig rhag mynd ati i sefydlu swyddfeydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, roeddem ni o'r farn y byddai hyblygrwydd y drefn yn golygu, wrth fodloni'r ddau faen prawf arall, y gallai'r cwmni ddal i sefydlu'r swyddfa

---

[28] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 3
[29] Indie Club, tudalennau 8-11
[30] STV, tud.3; TAC, tudalennau 3-4; Pwyllgor Cynghori Cymru, tud.2
[31] Y BBC, tud.10
[32] Channel 4, tud.6
[33] Channel 4, tudalennau 7 a 9
[34] Channel 4, tud.7
[35] ITV, tudalennau 5-6

newydd ar ôl y pwynt comisiynu ac y byddai'r cynhyrchiad yn cyfrif fel un rhanbarthol. Ar yr amod bod y swyddfa yn aros ar agor, byddai'n gallu bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol ar gyfer ei gomisiwn nesaf. Mewn ymateb, dywedodd Channel 5 y byddai hyn yn golygu y byddai'r hyblygrwydd a gynigir wrth fodloni dim ond dau o'r tri maen prawf yn cael ei ddileu yn yr achosion hyn, ac roedd ITV yn teimlo bod peidio â rhoi'r hyblygrwydd pwysig hwn i gynhyrchwyr newydd yn mynd yn groes i'r graen.[36] Yn ogystal, dywedodd y BBC a Channel 4 fod cwmnïau cynhyrchu yn gallu wynebu anawsterau wrth fodloni'r ddau faen prawf arall, yn enwedig wrth geisio cyflwyno genre newydd i ardal a phan fydd bwlch o ran sgiliau. O'r herwydd, dywedodd y BBC y gallai'r newid a gynigir sefydlu seilos sy'n benodol i genre mewn rhai ardaloedd.[37]

3.20 Fel ffordd arall a mwy penodol o ddatrys y broblem ynghylch swyddfeydd dros dro, dywedodd y BBC ei fod yn edrych yn ôl ar swyddfeydd i weld a ydyn nhw'n dal ar agor ac yn ystyried symud teitlau oddi ar y rhestr cynyrchiadau rhanbarthol os yw'r swyddfa wedi cau.[38] Tynnodd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sylw hefyd at y gwahanol gyfnodau yng nghylch bywyd cynhyrchiad y bydden nhw'n fwy cyfforddus yn gweld y ganolfan yn weithredol. I'r BBC a Channel 5 cychwyn y cynhyrchiad oedd hyn, ac i Channel 4 cyn y pwynt contract oedd hyn.[39] Awgrymodd ITV, yn hytrach na chanolbwyntio ar ba bryd y mae'r swyddfa yn agor, y gallem fynnu yn hytrach fod darlledwyr yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn dangos tystiolaeth eu bod yn bwriadu cadw'r ganolfan ar agor ar ôl darlledu, a bod dogfennau ar gael i Ofcom ar gais.[40] Cafwyd awgrym tebyg gan Directors UK hefyd. Er eu bod yn cefnogi'r newid a gynigiwyd yn gyffredinol, roedden nhw'n cydnabod efallai na fyddai rhai cwmnïau mewn sefyllfa i agor swyddfa heb gomisiwn. O'r herwydd, roedd yn cynnig y gallai cwmnïau cynhyrchu gael yr hyblygrwydd i fodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, naill ai drwy fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd, neu drwy fynnu bod y cwmni yn ymrwymo i sefydlu a chadw'r datblygiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau am gyfnod penodol.[41]

3.21 Roedd Pact yn gwerthfawrogi nod y newid hwn a gynigiwyd, sef rhwystro swyddfeydd dros dro rhag bodloni'r maen prawf. Ond, roedd yn awyddus i sicrhau nad oedd cwmnïau bach a chwmnïau newydd yn cael eu rhoi dan anfantais mewn unrhyw ffordd, a nododd Pact pa mor anodd y gallai hyn fod mewn achosion lle mae'r darlledwyr yn gofyn i gwmnïau cynhyrchu symud cyfresi sy'n dychwelyd y tu allan i Lundain. O'r herwydd, galwodd am rywfaint o hyblygrwydd o ran dehongli'r gofyniad.[42]

Ein penderfyniad

3.22 Rydym ni'n dal o'r farn y gallai'r newid hwn a gynigir arwain at fwy o gynaliadwyedd yn y sector cynhyrchu y tu allan i Lundain, gan annog darlledwyr i fabwysiadu dull tymor hwy wrth gomisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac atal swyddfeydd dros dro rhag

[36] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud.1; ITV, tud.5
[37] Y BBC, tudalennau 6-7 a 10; Channel 4, tudalennau 8-9 a 10-11
[38] Y BBC, tud.11
[39] Y BBC, tud.11; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud.3; Channel 4, tud.1 ac 8
[40] ITV, tudalennau 7-8
[41] Directors UK, tudalennau 1-2
[42] Pact, tudalennau 5-6

cyfrif tuag at y maen prawf. Roedd cefnogaeth amlwg i’r farn hon yn ôl rhai o'r ymatebion i’r Ymgynghoriad. Ond, roedd rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at y risgiau posib a allai godi yn sgil y cynnig i dwf a datblygiad y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a'r canlyniadau anfwriadol posib o ran cyflawni bwriad y polisi.

3.23 Rydym ni’n credu na fyddai newid y cam yng nghylch bywyd y cynhyrchiad lle ddylai’r ganolfan fod yn weithredol, yn cynnig ateb arall effeithiol, fel yr awgrymwyd gan rai o'r darlledwyr. Nod y newid a gynigiwyd gennym ni oedd sicrhau mai dim ond cwmnïau sydd eisoes yn gweithredu yn y gwledydd a'r rhanbarthau sy’n gallu bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Ni fyddai mynnu bod canolfannau’n weithredol cyn y pwynt contract neu ar ddechrau'r cynhyrchiad yn cyflawni'r nod hwn oherwydd byddai'n dal yn caniatáu i gwmnïau sefydlu swyddfeydd newydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar ôl ennill comisiwn.

3.24 Rydym ni wedi ystyried hefyd y sylwadau a wnaed gan ITV a Directors UK i ganiatáu i gwmnïau cynhyrchu fodloni'r maen prawf ar ôl y comisiwn, ar yr amod bod tystiolaeth o’r bwriad i gadw'r ganolfan ar agor ar ôl y cynhyrchiad dan sylw. Ond, er ein bod ni'n cytuno mewn egwyddor y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i ddiogelu yn erbyn swyddfeydd dros dro, rydym ni'n poeni y byddai dangos tystiolaeth o hyn yn anodd, ac y gallai arwain at chwarae gemau.

3.25 Yn eu hymatebion, darparodd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus astudiaethau achos anecdotaidd i ni i egluro’n well beth yw effeithiau negyddol posib y newid hwn. Rydym ni’n derbyn mewn egwyddor y gallai’r newid arwain at lai o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran dylanwadu ar y swyddfeydd newydd y mae cwmnïau sefydledig yn eu hagor yn y gwledydd a’r rhanbarthau pan fydd rhaglenni’n cael eu comisiynu. Ond, ni chawsom dystiolaeth gadarn i ddangos faint o effaith y gallai'r cynnig hwn ei chael. Felly, nid yw'n glir ar faint o deitlau y gallai'r newid hwn effeithio. Ar hyn o bryd, nid oes gennym dystiolaeth er mwyn i ni ddeall pa mor aml mae swyddfeydd, sy'n agor ar ôl cael comisiwn, yn aros yn agored ac yn sefydlu eu hunain yn y wlad neu'r rhanbarth penodol.

3.26 Gyda hyn mewn golwg, er ein bod yn dal yn credu y gallai ein cynnig fod o fantais o ran ei gyfraniad at gynaliadwyedd yr adran gynhyrchu y tu allan i Lundain, rydym ni'n credu ei bod hi'n briodol casglu rhagor o dystiolaeth cyn penderfynu a ddylid rhoi hyn ar waith. Felly, rydym ni wedi penderfynu peidio â newid y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol ar hyn o bryd.

3.27 Byddwn yn gofyn am wybodaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch a oedd y ganolfan sylweddol honno ar agor cyn i'r comisiynu ddigwydd, ar gyfer rhaglenni lle mae'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol wedi cael ei fodloni. Hefyd, rydym ni’n bwriadu gofyn am wybodaeth ynghylch a wnaeth y swyddfeydd aros ar agor ar ôl i’r comisiwn perthnasol gael ei gwblhau ac a wnaethon nhw sicrhau rhagor o gomisiynau o’r canolfannau hynny. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddeall pa mor aml mae swyddfeydd newydd yn agor yn sgil cael comisiwn, a hefyd a yw'r swyddfeydd hyn yn rhai dros dro neu a fyddan nhw'n aros ar agor ac yn creu effaith yn y tymor hwy ar economi greadigol yr ardal honno, a fyddai, yn y pen draw, yn helpu i gefnogi amcan y polisi.

3.28 Byddwn yn ymgysylltu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynted ag y bo modd i sicrhau eu bod mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth hon i ni yn y man. Byddwn yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar ôl i ni gasglu rhagor o dystiolaeth sydd ei hangen arnom ni ac yn gallu asesu'n well a yw'r manteision a ddaw o'r cynnig, yn ein barn ni, yn mynd i fod yn fwy nag unrhyw ganlyniadau anfwriadol posib a amlygwyd gan rai rhanddeiliaid.

Rhaid i'r cynhyrchiad dan sylw gael ei wneud o ganolfan sylweddol

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.29 O'r rheini a oedd wedi cyflwyno sylwadau am yr eglurhad hwn a gynigir, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â hyn. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, yr Indie Club a Directors UK.[43] Dywedodd yr Indie Club, yn benodol, eu bod yn teimlo bod angen y newid er mwyn cyflawni'r bwriad sy'n sail i'r drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.

3.30 Roedd rhai ymatebwyr eraill yn cytuno â'r cynnig, ond yn gofyn am fwy o eglurhad am yr hyn y byddai'n ei olygu'n ymarferol gan dynnu sylw at ganlyniadau anfwriadol posib y geiriad a gynigir. Roedd hyn yn cynnwys y BBC a oedd am gael sicrwydd na fyddai'r newid yn anfwriadol yn atal neu'n rhwystro gwaith ffilmio ar leoliad, ac na ddylid dehongli'r gair 'o' i feddwl 'yn y'.[44] Roedd Channel 4 yn poeni hefyd fod y derminoleg bresennol yn amwys ac y gallai pobl ei chamddehongli. Roedd yn tynnu sylw at enghreifftiau o gwmnïau â chanolfannau sylweddol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond sy'n agor swyddfeydd cynhyrchu dros dro yn lleoliad y gwaith ffilmio, y gellid ystyried mai 'o' fan hyn, yn dechnegol, mae'r cynhyrchiad 'yn cael ei wneud'.[45]

3.31 Dywedodd ITV fod angen mwy o eglurhad ynghylch y term 'cael ei wneud o' gan nad yw'r rhan fwyaf o'r cynhyrchiad yn digwydd mewn swyddfeydd corfforaethol, mewn gwirionedd. Awgrymodd y dylem ni egluro ai'r bwriad oedd gwneud yn glir y dylai'r cynhyrchiad gael ei 'reoli o' neu 'ei gynnal' o'r ganolfan sylweddol honno yn lle hynny.[46] Roedd Pact hefyd yn meddwl bod y term 'cael ei wneud o' yn golygu bod yn rhaid i'r cynhyrchiad 'gael ei wneud yn' y ganolfan, ac roedden nhw'n teimlo y byddai hyn yn cyfyngu gormod ac y gallai atal cwmnïau llai rhag gallu cynhyrchu rhaglenni mewn ardaloedd lle nad oes ganddyn nhw ganolfan. Nododd hefyd mai dim ond pan fydd cynhyrchiad yn hawlio bod ganddyn nhw ganolfan sylweddol y dylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol, ac y dylid egluro hyn yn nhestun y Canllawiau.[47]

Ein penderfyniad

3.32 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynnig hwn i gael eglurhad, ac rydym ni wedi penderfynu ei gynnwys. Rydym ni'n cydnabod, ar sail yr adborth o'r ymatebion, y

---

[43] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud.3; Indie Club, tud 8; Directors UK, tud.2
[44] Y BBC, tud. 12
[45] Channel 4, tud.12
[46] ITV, tud.8
[47] Pact, tud. 6

gallai'r term 'cael ei wneud o' gael ei ddehongli sawl ffordd. Bwriad y geiriad ychwanegol hwn oedd ei gwneud hi'n glir y dylai'r cynhyrchiad gael ei reoli neu gael ei gynnal o'r ganolfan sylweddol, ac na ddylai cynhyrchwyr hawlio eu bod yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol dim ond am fod ganddyn nhw ganolfan sylweddol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, pan fo'r gwaith o reoli'r cynhyrchiad a gwneud penderfyniadau'n digwydd mewn mannau eraill, mewn gwirionedd. Nid ydym ni'n mynnu bod y ffilmio yn digwydd yn y ganolfan sylweddol. Ac ystyried hyn, rydym ni wedi diwygio geiriad y gofyniad hwn i ddarllen "Rhaid i'r cynhyrchiad dan sylw gael ei reoli o'r ganolfan sylweddol honno".

Rhaid i holl elfennau'r maen prawf gael eu bodloni

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.33 Dim ond nifer fach o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig hwn yn eu hymatebion, ac roedd pob un ohonyn nhw'n cytuno. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ynghyd â'r BBC a Channel 4 a oedd yn croesawu'r eglurhad ac a nododd fod hyn eisoes yn cyd-fynd â sut maen nhw'n dehongli'r maen prawf, sy'n cael ei adlewyrchu yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[48]

Ein penderfyniad

3.34 Gan mai sylwadau o gefnogaeth a gawsom ni ar gyfer y cynnig hwn i gael eglurhad, rydym yn dal o'r farn bod hyn yn cyfleu'n well sut dylai'r maen prawf gael ei roi ar waith, ac felly rydym ni wedi penderfynu egluro.

Nodiadau esboniadol

3.35 Cawsom nifer fawr o sylwadau ynghylch y nodiadau esboniadol. Roedd rhai o'r sylwadau yn ymwneud â'r nodiadau yn eu cyfanrwydd, ac roedd eraill yn gysylltiedig â nodiadau unigol o dan bob un o'r meini prawf. Rydym ni'n egluro ein safbwynt o ran y nodiadau sy'n berthnasol i bob un o'r meini prawf yn yr adrannau, er mwyn i randdeiliaid allu gweld sut mae pob maen prawf wedi newid yn gyffredinol. Mae paragraffau 3.120 - 3.124 isod yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a gawsom ni am y nodiadau yn gyffredinol, a'n penderfyniadau am gynnwys y nodiadau ac ymhle y byddan nhw'n cael eu cyhoeddi.

3.36 Roedd y nodiadau roeddem ni'n eu cynnig o ran y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn cynnwys y meysydd canlynol:

- **Faint o unigolion y mae angen eu cyflogi yn y ganolfan:** Roeddem ni'n cynnig y byddai'r nifer yn debygol o amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau pob cwmni.
- **A oes angen i'r ganolfan sylweddol fod yn gwmni cyfreithiol ei hun:** Roeddem ni'n cynnig nad oedd angen i'r ganolfan fod yn gwmni cyfreithiol ei hun, gan ein bod o'r farn bod y strwythur corfforaethol y mae'r cwmni cynhyrchu yn ei fabwysiadu yn

[48] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud.3; Channel 4, tud. 12; Y BBC, tud.13

amherthnasol i'r ffordd mae'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn cael ei roi ar waith.

- **Pa swyddi sy'n gallu cael eu hystyried yn swyddi uwch staff personél a swyddi swyddogion gweithredol:** Nid oeddem yn ei ystyried yn briodol rhestru teitlau swyddi penodol, ond roeddem ni'n cynnig y dylai unigolion sy'n ymgymryd â'r rolau hyn fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol a/neu fod â rôl arwain bwysig.
- **A ellir ystyried cyfryngau at ddibenion arbennig[49] yn ganolfan sylweddol:** Roeddem ni o'r farn mai'r hyn sy'n allweddol gyda chynhyrchiad sydd wedi'i wneud gan SPV yw gweld a yw'r SPV yn bodloni holl elfennau'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol.
- **Beth yw ystyr bod yn weithredol cyn y pwynt comisiynu:** Roeddem ni'n cynnig y dylai'r ganolfan fod ar waith gyda swyddogion gweithredol yn rhedeg y busnes rhanbarthol ac uwch staff personél yn ceisio cael comisiynau o'r ganolfan honno. Roeddem ni'n esbonio nad oes cyfnod sefydlu sylfaenol wedi'i bennu.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.37 **Faint o unigolion y mae angen eu cyflogi yn y ganolfan:** Cytunodd y BBC y byddai nifer yr unigolion fyddai angen eu cyflogi yn y ganolfan sylweddol i fodloni'r meini prawf, yn amrywio yn dibynnu ar y cynhyrchiad dan sylw. [50] Roedd Channel 5 am weld eglurhad pellach ynghylch sut byddai Ofcom yn diffinio cwmni sy'n 'cychwyn', gan eu bod yn credu'n gryf y byddai'n dderbyniol, mewn rhai amgylchiadau, i un person fodloni pob un o dair elfen y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, hyd yn oed pan fyddai'r ganolfan newydd honno'n rhan o sefydliad mwy. Roedd am weld hyn yn cael ei egluro yn y Canllawiau.[51] Ond, ar y llaw arall, roedd ymatebydd arall yn credu pan fydd cwmni sydd eisoes yn bodoli yn sefydlu is-swyddfa newydd, na ddylid caniatáu i'r cwmni hwnnw fodloni'r maen prawf gyda dim ond un person. Roedd yn teimlo hefyd y dylai swyddfeydd o'r fath fod yn dangos tystiolaeth o swyddogaethau busnes parhaol, a dyhead i fod yn endid parhaol.[52]

3.38 **A oes angen i'r ganolfan sylweddol fod yn gwmni cyfreithiol ei hun:** Cytunodd y BBC â'n nodiadau ni nad oes angen i'r ganolfan sylweddol fod yn gwmni cyfreithiol ei hun. [53]

3.39 **Pa swyddi sy'n gallu cael eu hystyried yn swyddi uwch staff personél a swyddi swyddogion gweithredol:** Y nodyn hwn a gafodd y nifer fwyaf o sylwadau gan ymatebwyr mewn perthynas â'r maen prawf hwn. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r eglurhad ychwanegol roeddem ni'n ei roi, roedd rhai'n credu ei bod yn angenrheidiol i ni fynd gam ymhellach a rhestru'r teitlau swyddi penodol a fyddai'n cael

[49] Cwmni wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect penodol yw SPV, e.e. i gynhyrchu ffilm/rhaglen. Mae SPV yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau mawr fel arfer, a dramâu yn arbennig. Mae'r 'cyfrwng' yn cadw'r gwaith cynhyrchu ar wahân i weithgareddau eraill y cwmni cynhyrchu.
[50] Y BBC, tudalennau 14-15
[51] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 4
[52] Ymateb dienw 1, tudalennau 1-2
[53] Y BBC, tudalennau 14-15

eu hystyried yn swyddi swyddogion gweithredol neu uwch staff personél. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Cynghori'r Alban a oedd yn teimlo bod perygl o hyd y byddai ein diffiniad yn cael ei gamddefnyddio, ac y dylem ni roi awgrymiadau penodol o'r rolau hyn a fyddai'n dderbyniol, yn ogystal â rolau na fyddai'n dderbyniol.[54] Hefyd, roedd Directors UK am i ni gynnwys enghreifftiau gan nodi, er gwaethaf yr amrywiadau yn ôl genre, fod rhai uwch rolau sy'n gyson ar draws yr holl gynyrchiadau yn gallu cael eu cynnwys yn y nodyn.[55] Roedd yr Indie Club o'r un farn hefyd, a chawsom ni restr o enghreifftiau o rolau allweddol sy'n cael eu cydnabod gan bawb. Roedd STV yn awgrymu ein bod ni'n mabwysiadu'r dull gweithredu sydd yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd hefyd yn rhoi rhai enghreifftiau o'r mathau o rolau a fyddai'n cael eu hystyried.[56] Roedd Llywodraeth yr Alban yn teimlo hefyd bod angen i'n nodyn fynd gam ymhellach, ond yn hytrach na rhestru teitlau swyddi, awgrymodd y dylid nodi'n glir mai'r uwch staff ddylai wneud penderfyniadau ymreolaethol.[57] Ond, nid oedd Llywodraeth Cymru na Phwyllgor Cynghori Cymru yn meddwl ei bod yn ddoeth rhoi enghreifftiau o rolau'r swyddi a allai gael eu hystyried yn swyddi swyddogion gweithredol neu uwch staff personél. Roedden nhw'n cytuno â'n dull a oedd, yn hytrach, yn canolbwyntio ar oes gan yr unigolion sy'n cael eu hystyried yn uwch staff personél a swyddogion gweithredol, rôl arwain bwysig neu a ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau gweithredol.[58]

3.40 **A ellir ystyried cyfryngau at ddibenion arbennig (SPV) yn ganolfan sylweddol:** Nid oedd y BBC yn cytuno â'n safbwynt y byddai cyfryngau at ddibenion arbennig, sy'n gyfryngau dros dro, yn annhebygol o ddiwallu holl elfennau'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, oherwydd ei fod yn teimlo y gallai canolfannau o'r fath, dros dro neu beidio, fodloni'r holl elfennau. Yn groes i hynny, roedd Two Rivers Media o'r farn na ddylid ystyried SPV yn ganolfan sylweddol oherwydd eu bod yn dueddol o fodoli ar gyfer rhaglen benodol yn unig, ac ni fyddent felly yn gallu dangos gweithgarwch cyffredinol cwmni cynhyrchu dilys.[59] Roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo y dylem ychwanegu rhagor o fanylion i'r nodyn hwn drwy egluro bod SPV yn llai tebygol o fodloni'r gofynion y dylai'r ganolfan fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd ac mai'r ganolfan fyddai man gwaith arferol uwch staff personél sy'n ymwneud â chwilio am raglenni i'w comisiynu.[60]

3.41 **Beth yw ystyr bod yn weithredol cyn y pwynt comisiynu:** Cyflwynodd rhai rhanddeiliaid sylwadau ar y nodyn hwn; ond, gan ydym ni'n bwrw ymlaen â'r cynnig i fynnu bod canolfan yn weithredol cyn y pwynt comisiynu ar hyn o bryd, ni fyddwn ni'n cyflwyno'r nodyn hwn. Byddwn ni'n ystyried y sylwadau perthnasol wrth benderfynu ar unrhyw newid pellach i'r Canllawiau ar y mater hwn.

---

[54] Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud.3
[55] Directors UK, tudalennau 3-4
[56] Indie Club, tud.12; STV, tud.5
[57] Llywodraeth yr Alban, tud.6
[58] Llywodraeth Cymru, tud. 3; Pwyllgor Cynghori Cymru, tud. 2
[59] Two Rivers Media tud. 2
[60] Llywodraeth Cymru, tud. 3

Ein penderfyniad

3.42 **Faint o unigolion y mae angen eu cyflogi yn y ganolfan:** Gan ystyried y sylwadau a gawsom, rydym ni wedi penderfynu cynnwys y nodyn hwn. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod cwmnïau sydd eisoes yn bodoli ac yn sefydlu swyddfeydd newydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn dal yn gallu wynebu'r un risgiau â swyddfeydd newydd sbon. Felly, rydym ni o'r farn y gallai 'busnesau newydd' gynnwys swyddfa ranbarthol sydd newydd ei hagor gan gwmni cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain, ac rydym ni wedi gwneud hyn yn glir yn y Canllawiau.

3.43 **A oes angen i'r ganolfan sylweddol fod yn gwmni cyfreithiol ei hun:** Gan mai dim ond un sylw o gefnogaeth a gawsom i'r nodyn hwn, rydym wedi penderfynu ei gynnwys.

3.44 **Pa swyddi sy'n gallu cael eu hystyried yn swyddi uwch staff personél a swyddi swyddogion gweithredol:** Rydym ni wedi ystyried yr ystod o bwyntiau gan randdeiliaid, ac rydym ni'n dal o'r farn er mwyn i'n nodiadau lwyddo ar draws pob genre a gyda phob cynhyrchydd, nid yw'n briodol i ni ddarparu rhestr o deitlau swyddi penodol sy'n gallu cael eu hystyried yn swyddi swyddogion gweithredol ac uwch staff personél. Y ffactor pwysicaf yma, yn ein barn ni, yw ni waeth beth yw teitl swydd unigolyn, y nhw sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, annibynnol a/neu â rôl arwain bwysig mewn perthynas â rheoli'r busnes rhanbarthol, y cynhyrchiad dan sylw, neu chwilio am raglenni i'w comisiynu (gweler paragraff 3.52 isod ar gyfer pwyntiau ychwanegol mewn perthynas â'r nodyn hwn). Rydym ni'n nodi bod y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi rhai enghreifftiau o swyddi, ac nid ydym ni'n rhoi barn am hynny. Rydym ni'n annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ystyried yr ymatebion a gawsom gan randdeiliaid am y pwynt hwn.

3.45 **A ellir ystyried cyfryngau at ddibenion arbennig (SPV) yn ganolfan sylweddol:** Rydym ni o'r farn, os oes teitl wedi'i wneud gan SPV, y prif bwynt i'w ystyried yw a yw'r SPV yn bodloni holl elfennau'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. O'r herwydd, rydym ni wedi penderfynu cynnwys y nodyn hwn yn y Canllawiau.

Sylwadau ychwanegol

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.46 Fel y nodwyd yn yr Ymgynghoriad, roedd y rôl mae Llundain yn ei chwarae mewn cynyrchiadau rhanbarthol yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'n Cais am Dystiolaeth, gyda llawer o randdeiliaid o'r farn bod angen lleihau'r ddibyniaeth ar gwmnïau, cyfleusterau a thalentau sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Cawsom geisiadau hefyd i newid mwy ar y maen prawf hwn, y tu hwnt i'n cynigion, a oedd yn ceisio lleihau rôl Llundain mewn cynyrchiadau rhanbarthol.

3.47 Y prif awgrym yn y maes hwn, a godwyd gan sawl ymatebydd, gan gynnwys yr Indie Club a Two Rivers Media, oedd bod gofyniad yn cael ei bennu y dylai'r ganolfan sylweddol a'r staff sydd wedi lleoli ynddi fod yn annibynnol yn weithredol ar unrhyw swyddfa arall neu bencadlys yn Llundain. Yn benodol, cynigiodd yr Indie Club eiriad

newydd i'w ychwanegu at y maen prawf, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r uwch swyddogion gweithredol sydd â'u man gwaith arferol yn y ganolfan honno, i fod yn annibynnol yn weithredol. Yn ymarferol, dywedodd y byddai hyn yn golygu y byddai'r uwch staff sydd wedi'u lleoli yno yn gallu goruchwylio'r gwaith cyn-gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac roedd yn teimlo y byddai hyn yn creu mwy o swyddi ac yn sicrhau bod pob rhaglen neu gyfres yn gadael gwaddol creadigol ac economaidd. Heb y newid hwn, roedd yr Indie Club o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith ôl-gynhyrchu a hyd yn oed y gwaith cyn-cynhyrchu yn dal i ddigwydd yn Llundain, ac ni fyddai canolfannau cynhyrchu ledled y DU yn gallu tyfu a ffynnu.[61] Awgrymodd Two Rivers Media y dylid diwygio diffiniad canolfan sylweddol i ganolbwyntio ar sicrhau bod y ganolfan yn annibynnol yn weithredol. Roedden nhw o'r farn y byddai hyn yn mynd ati'n well i ddiogelu a hyrwyddo busnesau cynhyrchu sy'n gynhenid yn y gwledydd a'r rhanbarthau neu'n wirioneddol wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Fel rhan o'r diffiniad, byddai'n rhaid i'r tair prif swyddogaeth yn y swyddfa fod yn byw yn y wlad neu'r rhanbarth perthnasol.[62]

3.48 Roedd sawl ymatebydd arall, fel Llywodraeth yr Alban a Phwyllgor Cynghori'r Alban[63], hefyd yn credu y byddai mynnu bod staff yn y ganolfan sylweddol yn byw yn y wlad neu'r rhanbarth perthnasol, yn hytrach na bod y ganolfan yn fan gwaith arferol iddyn nhw, yn gwneud y drefn yn fwy cadarn.

3.49 Roedd Llywodraeth yr Alban yn awyddus hefyd i leihau rôl cwmnïau o Lundain mewn rhai genres penodol. Roedd yn sôn am ddadansoddiad sy'n dangos bod cynyrchiadau drama a chomedi yn llai tebygol o fodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol ac yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Felly, roedd yn awgrymu y dylai'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol fod yn orfodol ar gyfer y genres hyn, i wasgaru'r cynyrchiadau yn y genres hanfodol hyn ar draws y DU.[64]

3.50 Heblaw'r awgrymiadau hyn ar gyfer newid, roedd rhai rhanddeiliaid yn gofyn hefyd am ragor o eglurhad ynghylch rhai o'r termau a ddefnyddir yn y maen prawf. Roedd Tern yn teimlo nad oedd y term 'man gwaith arferol' yn y maen prawf yn ddigon clir.[65] Yn yr un modd, roedd Pact eisiau gwybod mwy am sut roedd Ofcom yn dehongli 'man gwaith arferol' ac awgrymodd defnyddio'r diffiniad sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[66]

3.51 Yn olaf, cyflwynodd rhai o'r ymatebwyr sylwadau am nod sydd wedi'i ddatgan ar gyfer y ganolfan sylweddol, a oedd yn ychwanegiad newydd i'r Canllawiau. Roedd y BBC, Pwyllgor Cynghori'r Alban a Pact yn cytuno â'r nod.[67] Ond, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i'r nod fynd gam ymhellach, gan gynnwys yr Indie Club a awgrymodd

---

[61] Indie Club, tudalennau 8-11
[62] Two Rivers Media, tud. 1; Two Rivers Media Annex, tudalennau 1-2
[63] Llywodraeth yr Alban, tud. 2; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 2
[64] Llywodraeth yr Alban, tudalennau 2 a 6
[65] Tern, tud. 1
[66] Pact, tud. 6
[67] Y BBC, tud. 13; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 2; Pact, t. 5

newid rhywfaint o'r geiriad i ddatblygu'r pwyntiau a amlinellwyd yn gynharach ynghylch yr angen i'r ganolfan fod yn annibynnol yn weithredol, gan helpu i greu canolfannau cynhyrchu 'o'r dechrau i'r diwedd' yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[68]

Ein penderfyniad

3.52 Fel y nodwyd yn yr Ymgynghoriad, rydym ni o'r farn y gall Llundain chwarae rôl gadarnhaol mewn cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'n bwysig bod canolfannau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gallu manteisio ar adnoddau yn Llundain lle bo angen, ond rydym ni'n cydnabod hefyd byddai'n ddymunol eu bod yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain hefyd a gweithio'n annibynnol ar Lundain lle bo hynny'n bosib, er mwyn datblygu sector cynhyrchu sy'n wirioneddol gynaliadwy. Mae'n bwysig bod y staff yn y ganolfan sylweddol wedi'u lleoli go iawn yn y swyddfa honno, ac mai dyma eu man gwaith arferol. Yn y nodiadau esboniadol y gwnaethom ni ymgynghori yn eu cylch, roeddem ni'n esbonio mai'r uwch staff personél a'r swyddogion gweithredol yn y ganolfan sylweddol fyddai'r rheini sydd â rôl arwain bwysig neu sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol. Drwy hyn, ein bwriad oedd egluro'n glir y dylai'r rolau hyn gael eu llenwi gan y rheini sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau mewn perthynas â gweithrediadau'r busnes hwnnw, neu'r cynhyrchiad dan sylw. Ar sail yr awgrymiadau o'r ymatebion, rydym ni wedi penderfynu gwneud hyn yn gliriach drwy ddatgan yn y Canllawiau mai'r unigolion sy'n llenwi'r rolau hyn ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, annibynnol.

3.53 Er ein bod yn cydnabod yr awydd gan rai rhanddeiliaid, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd lle mae system codio treth benodol, bod staff sy'n gweithio yn y ganolfan sylweddol yn byw yn yr ardal, rydym yn dal o'r farn na fyddai'r newid hwn yn ymarferol. Ni fyddai'n berthnasol i'r ardaloedd yn y DU nad oes ganddyn nhw eu codau treth penodol eu hunain. Yn ogystal, nid yw statws treth domisil rhywun o reidrwydd yn dangos yn union lle maen nhw'n gweithio, neu'n byw hyd yn oed, felly gallai hyn fod yn anfantais i'r rheini sydd wir yn gweithio a/neu'n byw mewn ardal, ond sydd, at ddibenion treth, yn byw yn rhywle arall am resymau hanesyddol. Rydym ni'n nodi bod Two Rivers Media wedi awgrymu y gellid dehongli domisil fel rhywle lle maen nhw'n talu eu trethi neu, mewn ardaloedd lle nad yw hynny'n berthnasol, eu man preswylio arferol. Ond, rydym ni'n dal o'r farn y dylai'r ganolfan fod yn fan gwaith arferol y person hwnnw, yn hytrach na mynnu eu bod yn byw yn yr un wlad neu is-ranbarth. Mae'n bosib, ar rai achlysuron, fod staff yn gweithio mewn gwlad neu ranbarth, ond eu bod yn byw ychydig y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth.

3.54 Nid ydym am fynnu bod y ganolfan sylweddol yn feini prawf gorfodol ar gyfer unrhyw genre penodol. Rydym ni'n dal o'r farn, ni waeth beth yw'r genre, mai'r bwriad wrth gynnig hyblygrwydd i fodloni'r maen prawf ar gyfer y meini prawf ar gyfer cyllideb cynhyrchu a thalentau yn hytrach na'r ganolfan sylweddol, yw sicrhau bod pob cynhyrchydd yn cael chwarae teg wrth gynnig syniadau am gomisiynau ar gyfer

[68] Indie Club, tudalennau 11-12

cynyrchiadau rhanbarthol, ac i sicrhau bod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y rhyddid i gomisiynu a darparu cymysgedd o genres o amrywiaeth o leoliadau gwahanol.

3.55 Rydym ni'n cytuno â'r ymatebwyr y gallem ni fod yn gliriach o ran yr hyn a olygwn wrth y term ‘man gwaith arferol’ ac o'r herwydd, rydym ni wedi ychwanegu mwy at y nodiadau ar gyfer y maen prawf hwn. Rydym ni o'r farn mai man gwaith arferol rhywun yw lle maen nhw’n treulio'r rhan fwyaf o’u hamser gweithio. Rydym ni’n nodi bod y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio'r diffiniad hwn. Ond, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol i Ofcom fynd mor bell â’r canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i geisio diffinio beth mae ‘rhan fwyaf o’u hamser’ yn ei olygu.

3.56 O ran y nod sydd wedi’i ddatgan ar gyfer y maen prawf, am ein bod wedi cael rhai sylwadau o gefnogaeth ar ei gyfer, ac am ein bod yn credu ein bod eisoes wedi mynd i'r afael â’r pwyntiau sy'n ymwneud ag annibyniaeth weithredol yn nodiadau’r maen prawf, rydym ni wedi penderfynu bwrw ymlaen i ychwanegu fel sy'n cael ei gynnig yn yr Ymgynghoriad.

Meini prawf terfynol

Maen prawf a: Canolfan sylweddol

Mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Rhaid i'r cynhyrchiad dan sylw gael ei reoli o'r ganolfan sylweddol honno. Bydd y ganolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol:

i) swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol; a

ii) uwch staff personél sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw; a

iii) uwch staff personél sy'n ymwneud â chwilio am raglenni i'w comisiynu.

Nod: Amcan y maen prawf hwn yw gwneud cynyrchiadau teledu yn rhan greiddiol yn y gwledydd a'r rhanbarthau i sicrhau rhyw elfen barhaus sy'n gallu ysgogi a datblygu ecolegau cynhyrchu hyfyw y tu allan i'r M25. Er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, rydym yn credu y bydd gan y cwmni sy'n gwneud y teitl bresenoldeb dilys yn y wlad neu is-ranbarth lle mae ganddo swyddfa ac y bydd yn cyfrannu drwy'r amser at economi greadigol yr ardal leol honno.

Nodiadau:

- *Bydd y ganolfan sylweddol yn endid cyfreithiol ei hun fel arfer, ond nid oes raid iddi fod.*
- *Nid oes isafswm o unigolion y mae angen iddyn nhw gael eu cyflogi yn y ganolfan sylweddol; bydd y nifer yn dibynnu ar yr hyn sy'n cyfri fel swyddfa cynhyrchu weithredol go iawn yn yr ardal leol lle mae wedi'i lleoli. Er enghraifft, mewn cwmni sy'n cychwyn o'r newydd, gan gynnwys swyddfa ranbarthol sydd newydd ei hagor gan gwmni cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain, efallai mai un person fydd yn gyfrifol ar y dechrau am yr holl swyddogaethau a nodir uchod, ac felly'n bodloni holl elfennau'r maen prawf. Ond, i gwmnïau mwy, e.e. swyddfa ranbarthol fwy sydd wedi ennill ei phlwyf gan gwmni cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain, mae'n fwy tebygol y byddem ni'n disgwyl gweld sawl unigolyn yn gyfrifol am elfennau gwahanol o'r maen prawf. Pan fydd staff personél a rolau'n newid dros amser, byddem ni'n disgwyl i ddarlledwyr asesu a yw'r ganolfan yn dal yn sylweddol, yn unol â'r maen prawf hwn.*
- Mae'r termau cyffredinol 'swyddogion gweithredol' ac 'uwch staff personél' yn cydnabod bod teitlau swyddi'n amrywio rhwng cyflogwyr, yn ôl genre a thros amser. *Rydym ni'n diffinio 'swyddogion gweithredol' fel yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol a/neu â rôl arwain bwysig mewn perthynas â rheoli'r busnes rhanbarthol. Rydym ni'n diffinio 'uwch staff personél' fel yr unigolion hynny sydd â rôl arwain bwysig a/neu sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, annibynnol mewn perthynas â'r cynhyrchiad dan sylw, neu mewn perthynas â chwilio am raglenni i'w comisiynu (fel sy'n berthnasol).*
- *Man gwaith arferol rhywun yw lle mae'r unigolyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser gweithio.*
- *Yr hyn sy'n allweddol gyda chynhyrchiad sydd wedi'i wneud o SPV yw gweld a yw'r SPV yn bodloni holl elfennau'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Os yw'r SPV yn un dros dro, rydym ni'n dueddol o feddwl y bydd hi'n llai tebygol o allu bodloni holl elfennau'r maen prawf, yn enwedig y gofyniad bod y ganolfan sylweddol yn 'fan gwaith arferol ar gyfer uwch staff personél sy'n ymwneud â chwilio am raglenni i'w comisiynu'.*

Newidiadau i'r meini prawf: Y gyllideb cynhyrchu[69]

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.57 Roeddem ni'n cynnig gwneud dau newid penodol i'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu mewn ymateb i geisiadau rhanddeiliaid am eglurhad, a gawsom mewn digwyddiadau a chyfarfodydd rhanddeiliaid yn ogystal ag mewn ymatebion ysgrifenedig i'n Cais am Dystiolaeth. Yn gyntaf, roeddem ni'n cynnig addasu geiriad y maen prawf er mwyn dangos yn glir y dylai'r 70% gael ei ystyried yn erbyn y gyllideb cynhyrchu gyfan (gan gynnwys unrhyw gyllid gan drydydd partïon). Yn ail, roeddem ni'n cynnig y dylai unrhyw ffi cynhyrchu gael ei heithrio o'r gyllideb wrth gyfrifo a yw'r 70% wedi cael ei fodloni neu beidio, gan ein bod yn teimlo mai'r ffi cynhyrchu yw'r elfen elw mewn cynhyrchiad, ac y dylai'r incwm hwn gael ei drin yn wahanol i wariant cynhyrchu rhaglenni. Roeddem ni'n credu y byddai'r newidiadau hyn yn arwain at fwy o gysondeb wrth roi'r maen prawf hwn ar waith. Fe wnaethom nodi yn y ddogfen Ymgynghori hefyd nad oeddem ni'n bwriadu eithrio costau cynhyrchu rhyngwladol wrth gyfrifo a yw'r trothwyon perthnasol wedi cael eu bodloni. Roeddem ni hefyd yn cynnig darparu rhywfaint o nodiadau esboniadol i ateb y cwestiynau penodol sy'n cael eu codi gan randdeiliaid am y maen prawf hwn.

3.58 Nod y newidiadau rydym ni'n eu cynnig i'r maen prawf hwn yw rhoi darlun mwy cywir o'r hyn sy'n cael ei wario ar gynhyrchiad. Dylai hyn arwain at briodoli gwariant i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn fwy teg a thryloyw. Bydd hyn, yn ein barn ni, yn cael effaith gadarnhaol ar yr ecoleg gynhyrchu leol.

Crynodeb o sylwadau a'n penderfyniad

Cyfrifo yn erbyn y gyllideb cynhyrchu gyfan

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.59 O'r rhanddeiliaid a roddodd sylwadau am y cynnig hwn, roedd pawb yn cytuno mai cynnwys y gyllideb cynhyrchu gyfan mewn cyfrifiadau yw'r dull mwyaf rhesymegol.[70] Dywedodd y BBC, ITV a Channel 4 fod ein cynnig yn unol â'u harfer ar hyn o bryd, a chytunodd Channel 5 y dylid cynnwys gwariant trydydd parti.

3.60 Ond, dywedodd y BBC ymhellach na fyddai'n briodol cynnwys costau sy'n ymwneud â darparu ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i'r DU fel gwariant, boed hyn yn gyd-gyllido neu beidio, a dywedodd fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau ar y cyd gan

[69] Pan fyddwn ni'n sôn am y newidiadau rydym ni'n eu gwneud i'r gyllideb cynhyrchu, rydym ni'n cyfeirio at y newidiadau i'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu sy'n berthnasol ar sail fesul rhaglen, yn hytrach na'r newidiadau i'r ffordd y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrifo'r hyn maen nhw'n eu cyflawni'n gyffredinol yn erbyn eu cwotâu gwariant.

[70] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 1; Y BBC, tudalennau 17-18; BECTU, tud. 3; Channel 4, tud. 14, Indie Club, tudalennau 13-14, Ymateb dienw 1, tudalennau 2-3; Llywodraeth Cymru, tud. 3; Pwyllgor Cynghori Cymru, tud. 2; ITV, tud. 9; Viacom International Media Networks/Channel 5, p.4; Ymateb dienw 2, tudalennau 8-9

ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[71] Awgrymodd un o'r ymatebwyr hefyd na ddylid cynnwys cyllid trydydd parti gan gyd-gynhyrchwyr rhyngwladol mewn cyfrifiadau.[72]

Ein penderfyniad

3.61 Rydym ni'n cytuno â phwynt y BBC na ddylid cynnwys y gwariant sy'n ymwneud â darparu rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i'r DU mewn cyfrifiadau. Rydym ni'n credu y dylid ystyried costau o'r fath, er enghraifft y rheini sy'n gysylltiedig ag ailfersiynu rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i'r DU, fel costau cwbl ar wahân i'r costau sy'n mynd at y gwaith o gynhyrchu rhaglenni ar gyfer teledu rhwydwaith yn y DU. Nid ydym ni'n credu bod angen ychwanegu dim byd am hyn i'r Canllawiau, oherwydd ein bod yn credu bod y Canllawiau a'r cwotâu yn amlwg yn berthnasol i'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer teledu rhwydwaith yn y DU.

3.62 O ran a ddylid cynnwys cyllid trydydd parti gan gyd-gynhyrchwyr dramor, rydym ni'n credu nad yw'n bwysig o ble daw'r cyllid trydydd parti, cyhyd ag y bo'r gwariant yn digwydd yn y DU.

3.63 Gan fod cytundeb unfrydol i'r cynnig hwn ar y cyfan, a'r ffaith bod cyllid trydydd parti a'r cyd-gynyrchiadau'n debygol o fod yn fwyfwy cyffredin wrth gyllido cynyrchiadau, rydym ni wedi penderfynu newid y maen prawf hwn.

Ffi cynhyrchu

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.64 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig i esbonio y dylai'r ffi cynhyrchu gael ei heithrio o'r maen prawf cyllideb, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[73] Yn eu barn nhw, i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a' r rhanbarthau, mae'r ffi yn gyfraniad pwysig i gefnogi'r economi leol.[74] Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hefyd fod y ffi cynhyrchu yn aml yn cael ei hail-fuddsoddi'n lleol yn y pen draw, er enghraifft ar reoli a gweithredu'r ganolfan ranbarthol ei hun, ar ddatblygu rhagor o raglenni, neu hyd yn oed ar y cynyrchiadau.[75]

3.65 Dadl ymatebwyr hefyd, gan gynnwys yr Indie Club, oedd y gallai eithrio'r ffi cynhyrchu fod o fudd i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain, gan fod ei heithrio'n lleihau gwerth cyffredinol y gyllideb cynhyrchu sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r ffigur 70%.[76] Dywedodd Tern y bydd y cynnig o fudd i gwmnïau heb ganolfan sylweddol yn y

[71] Y BBC, tudalennau 17-18
[72] Ymateb dienw 1, tudalennau 2-3
[73] Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 3; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 5; Indie Club, tudalennau 13-14; Llywodraeth yr Alban, tud. 6; Llywodraeth Cymru tud. 4; Ymateb dienw 1, tudalennau 2-3; STV, tud. 4; Tern, tud. 2; Ymateb dienw 2, tudalennau 8-10
[74] Llywodraeth Cymru tud. 4; Ymateb dienw 2, tudalennau 9-10; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 3; Tern, tud. 2
[75] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 3; Ymateb dienw 1, tud. 3; Ymateb dienw 2, tudalennau 9-10
[76] Indie Club, tudalennau 13-14; Ymateb dienw 2, tud. 8

gwledydd a'r rhanbarthau sy'n awyddus i wneud cynyrchiadau rhanbarthol, ond sy'n cadw'r ffi cynhyrchu yn Llundain.[77]

3.66 Ond, roedd ymatebwyr eraill, yn enwedig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn cytuno â'r eithrio, gan gydnabod y byddai'n ffordd dda o sicrhau eglurder a chysondeb wrth weithredu. Cadarnhaodd Channel 4, ITV ac STV fod y cynnig yn unol â'u harfer ar hyn o bryd.[78] Er eu bod yn cytuno y dylid eithrio'r ffi, roedd y BBC, STV a Pact, fodd bynnag, yn cydymdeimlo â'r cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau sy' n teimlo bod eu ffi cynhyrchu yn cael ei buddsoddi'n lleol.[79] Roedden nhw'n galw am rywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft caniatáu i gwmni gynnwys y ffi os yw'n bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, neu os bydd cwmni'n gallu dangos bod y ffi'n cyfrannu at yr economi greadigol yn y wlad neu'r rhanbarth, sy'n cyd-fynd â'r canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ein penderfyniad

3.67 Rydym yn dal o'r farn mai elw o'r rhaglen dan sylw, ac nid gwariant ar y rhaglen honno, yw'r ffi cynhyrchu yn y bôn. Rydym ni'n cydnabod y bydd achosion yn codi lle mae'r ffi cynhyrchu yn wirioneddol yn cael ei defnyddio a'i hail-fuddsoddi yn yr economi greadigol leol, ac felly'n cyfrannu at gynaliadwyedd yr ardal. Ond, yn yr achosion hyn, nid yw'r arian hwnnw wedi cael ei wario'n uniongyrchol ar y cynhyrchiad dan sylw. Rydym ni hefyd yn ymwybodol o'r hyn rydym wedi'i glywed, fod cwmnïau cynhyrchu yn defnyddio'r ffi cynhyrchu mewn ffyrdd gwahanol, a bod achosion lle mae'r ffi yn mynd yn ôl i gwmnïau sydd â phencadlys yn Llundain.

3.68 O'r herwydd, i sicrhau cysondeb, a chwarae teg i bob cwmni, rydym ni wedi penderfynu mynd ati i egluro y dylai'r ffi cynhyrchu gael ei heithrio o'r gyllideb cynhyrchu.

3.69 Ond, fel yr amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, rydym ni'n dal o'r farn os bydd mwy na chyllideb y cynhyrchiad yn cael ei ddefnyddio a'r cwmni'n dewis defnyddio'r ffi cynhyrchu i dalu am y cynnydd yn y costau, yna mae'n amlwg mai gwariant fydd hyn, ac felly byddai'n briodol cynnwys y gwariant hwn yn y gyllideb cynhyrchu ac wrth gyfrifo'r 70%, os yw'n cael ei wario y tu allan i'r M25. Rydym ni wedi penderfynu esbonio hyn yn glir yn y Canllawiau.

Gwariant rhyngwladol

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.70 Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'n heglurhad na ddylai gwariant rhyngwladol gael ei eithrio o gyfrifiad y gyllideb cynhyrchu, a dywedodd y gallai eithrio'r gwariant

[77] Ymateb Tern, tud. 2
[78] Channel 4, tud. 14; ITV, tud. 9 a STV, tud. 4
[79] Y BBC, tud. 17; STV, tud. 4; Pact, tud. 7

ganiatáu i raglenni sy'n cael eu ffilmio dramor yn bennaf gyfrif tuag at y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.[80]

3.71 Ond, roedd y rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn anghytuno, ac roedden nhw o'r farn y dylid eithrio unrhyw wariant rhyngwladol o gyfrifiad y gyllideb cynhyrchu yn llwyr[81], os nad yw cynhyrchiad wedi cael ei gategoreiddio fel un 'sy'n cael ei wneud y tu allan i'r DU'.[82]

3.72 Roedd y BBC ac ITV yn dadlau bod costau rhyngwladol yn gallu cynrychioli cyfran fawr o wariant cynhyrchiad, gan ei wneud yn anodd iawn bodloni'r maen prawf, ac na ddylai costau o'r fath rwystro cynhyrchiad rhag bod yn gymwys.[83] Awgrymodd y BBC y byddai modd mynd i'r afael â hyn drwy 'wrthbwyso' gwariant rhyngwladol, naill ai drwy ei gategoreiddio fel gwariant rhanbarthol neu ei eithrio o'r cyfrifiadau'n gyfan gwbl. Roedd yn cydnabod mai'r broblem wrth drin costau rhyngwladol fel gwariant rhanbarthol yw bod gwariant o'r fath yn annhebygol o fod o fudd i gynhyrchiad yn y DU neu'r economi leol, ac roedd yn cynnig felly y dylem ni newid ein Canllawiau fel bod gwariant rhyngwladol yn cael ei eithrio'n gyfan gwbl. Ond, nid oedd tystiolaeth wedi'i rhoi i ddangos ar faint o gynyrchiadau y byddai'r eithrio'n effeithio.

3.73 Roedd Channel 4 o'r farn hefyd na ddylid cynnwys gwariant rhyngwladol. Rhoddodd enghraifft o gynhyrchiad drama lle roedd y rhan fwyaf o wariant y DU yn rhanbarthol ond oherwydd treuliau rhyngwladol (nad oedd yn ddigon sylweddol i'r cynhyrchiad gael ei ystyried yn gynhyrchiad rhyngwladol), nid oedd yn ddigon i gael ei ystyried yn gynhyrchiad rhanbarthol. Ac ystyried gwerth absoliwt y gwariant ar ddrama, roedd Channel 4 o'r farn bod y gwariant rhanbarthol ar y cynhyrchiad hwn lawer yn uwch na sawl cynhyrchiad a oedd yn gymwys, ac nad yw'r mathau hyn o gynyrchiadau'n cael eu cydnabod o dan y system bresennol.[84]

3.74 Mynegodd ITV, y BBC a Tern bryderon hefyd y gallai'r cynnig roi mantais gystadleuol i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Byddai eithrio gwariant rhyngwladol yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, sydd â'r un ffocws rhyngwladol â chwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain, yn gallu cystadlu ar yr un lefel am gomisiynau sydd ag elfen o waith ffilmio rhyngwladol.[85]

3.75 Dywedodd Pact ei fod yn deall pam ein bod wedi dewis peidio â chynnwys gwariant rhyngwladol, ond roedden nhw'n poeni y byddai hyn, o bosib, yn ddigon o gymhelliant i beidio â ffilmio'n rhyngwladol ac y byddai'n effeithio er gwaeth ar ddatblygiad y sector

---

[80] Llywodraeth Cymru, tudalennau 3-4
[81] Y BBC, tud. 21-22; ITV, tud. 10; Channel 4, tudalennau 13-14; Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 5-6
[82] Mae gan Ofcom feini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhyngwladol yn barod, ac mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn eu gweithredu ers 2005/2006. Cafodd y meini prawf eu cyflwyno i sicrhau nad yw rhaglenni sydd ag elfen sylweddol o gynyrchiadau rhyngwladol yn cael eu hystyried at ddibenion cyfrif cwota sydd ond yn ymwneud â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU. Rydym ni'n mynd i gynnwys y meini prawf mewn atodiad i'r Canllawiau ar eu newydd wedd
[83] Y BBC, tudalennau 21; ITV, tud. 10
[84] Channel 4, tud. 14
[85] Y BBC, tud. 19; ITV, tud. 10; Tern, tud. 2

yn y dyfodol, a galwodd am rywfaint o hyblygrwydd gydag achosion ar y ffin.[86] Soniodd hefyd am feini prawf presennol Ofcom ar gyfer cynyrchiadau rhyngwladol (gweler troednodyn 81) sy'n pennu a yw rhaglen wedi cael ei gwneud y tu allan i'r DU, ac y dylai felly gael ei heithrio o gyfrifiad y cwota yn gyfan gwbl. Awgrymodd ein bod yn ymgynghori ynghylch y meini prawf.[87] Dywedodd y BBC a Channel 5 y byddai'n hoffi gweld y meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhyngwladol yn y Canllawiau.[88]

3.76 Yn olaf, dywedodd y BBC, Channel 4, Channel 5 a Pact y byddai gwariant rhyngwladol, o dan ein cynnig, yn cael ei neilltuo fel gwariant yn Llundain i bob pwrpas, ac nad oedd hynny'n gwneud synnwyr, yn eu barn nhw. Roedden nhw'n dadlau bod hyn yn cam-gyfleu natur y cynhyrchiad ac yn cosbi cwmnïau sydd â chynyrchiadau sy'n gorfod cael gwariant rhyngwladol ar eu cyfer.[89]

Ein penderfyniad

3.77 Rydym ni'n dal o'r farn y byddai eithrio costau cynhyrchiad rhyngwladol wrth gyfrifo a yw'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu wedi cael ei fodloni yn tanseilio bwriad y polisi i hybu mwy o wariant ar gynhyrchu ar gyfer teledu y tu allan i Lundain yn y DU. Fel y nodwyd yn yr Ymgynghoriad, byddai dileu gwariant rhyngwladol yn golygu bod cynyrchiadau heb fawr o wariant rhanbarthol yn gallu bod yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol. Mae'r hyblygrwydd o orfod bodloni dau o'r tri maen prawf yn golygu hefyd fod cynyrchiadau sydd â rhywfaint o wariant rhyngwladol yn dal yn gallu cael eu cyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n bodloni'r maen prawf ar gyfer gwariant.

3.78 Mewn perthynas â'r meini prawf presennol ar gyfer cynyrchiadau rhyngwladol, rydym ni'n cytuno bod angen diffiniad cliriach o gynhyrchiad rhyngwladol ac y byddai'n fuddiol ychwanegu'r meini prawf perthnasol yn y Canllawiau. Mae'r meini prawf wedi cael eu cynnwys mewn atodiad i'r Canllawiau er gwybodaeth. Nid oedden nhw'n rhan o gwmpas yr adolygiad hwn.

3.79 Mae'n ymddangos fod rhywfaint o ddryswch, o ran y pwynt a gyflwynwyd bod cynnwys gwariant rhyngwladol yn y gyllideb cynhyrchu yn golygu, yn y bôn, ei fod yn cael ei neilltuo fel 'gwariant yn Llundain'. Er mwyn bodloni'r maen prawf ar gyfer cyllideb, mae gwariant naill ai'n 'rhanbarthol', neu ddim; nid yw, fel y cyfryw, yn cael ei neilltuo i Lundain. Os yw'r cynhyrchiad yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol, bydd gwariant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodir yn y Canllawiau, yn cael ei neilltuo'n llawn i'r rhanbarth y mae'r cynhyrchiad wedi cael ei neilltuo, sy'n golygu bod dim gwariant wedi'i neilltuo ar gyfer Llundain.[90]

3.80 Wrth gloi, rydym ni'n dal o'r farn na ddylai'r gwariant rhyngwladol gael ei eithrio o gyfrifiad y gyllideb cynhyrchu, hynny yw, dylai gael ei gynnwys yn y cyfrifiad. Fodd

---

[86] Pact, tud. 7
[87] Pact, tud. 7
[88] Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 5-6; Y BBC, tud. 25
[89] Y BBC, tud. 21; Channel 4, tudalennau 13-14; Channel 5, tud. 6; Pact, tud. 7
[90] Paragraff 7 y Canllawiau

bynnag, byddwn yn cynnwys y meini prawf presennol ar gyfer gwariant rhyngwladol mewn atodiad yn y Canllawiau i ddangos yn glir pa bryd y bydd cynhyrchiad yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhyngwladol, ac wedi'i eithrio felly o'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn gyffredinol.

Nodiadau esboniadol

3.81 Roedd y nodiadau roeddem ni'n eu cynnig o ran y maen prawf ar gyfer cyllideb cynhyrchu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- **Sut dylid neilltuo costau sy'n gysylltiedig â theithio:** Roddem ni'n cynnig na fyddai'n briodol i wariant ar gludo talentau/offer rhwng Llundain a'r rhanbarthau (neu y tu allan i'r DU) gael ei gategoreiddio'n gostau rhanbarthol, gan ei bod yn annhebygol y byddai'r costau hyn yn cyfrannu at yr economi greadigol yn y rhanbarth. Fodd bynnag, roeddem ni'n cynnig y byddai'n briodol i'r gwariant ar deithio yn lleol gael ei gategoreiddio'n gostau rhanbarthol, gan ein bod ni o'r farn y byddai'r costau hyn, fel arfer, yn cyfrannu at yr economi greadigol yn lleol.
- **Sut dylid neilltuo costau gorbenion:** Roeddem ni'n cynnig y dylai costau gorbenion sy'n gysylltiedig â chadw canolfan sylweddol yn weithredol yn y gwledydd a'r rhanbarthau gael eu categoreiddio'n wariant rhanbarthol. Pan fydd cynhyrchiad yn cael ei wneud gan gwmni o Lundain heb unrhyw ganolfan sylweddol, dylai costau gorbenion cael eu categoreiddio'n wariant yn Llundain. Pan fydd canolfan sylweddol yn bodoli ond bod gan gwmni cynhyrchu amryw o swyddfeydd ar draws y DU, fe ddywedon ni y byddem ni'n disgwyl i gostau gorbenion gael eu neilltuo pro rata yn ôl lleoliad, fel arfer.
- **Sut dylid trin gwariant tramor:** Roeddem ni'n cynnig y dylai'r gwariant y tu allan i'r DU gael ei neilltuo fel rhan o'r gyllideb cynhyrchu ond na ddylai gael ei gategoreiddio'n wariant rhanbarthol, gan nad yw'n cyfrannu at yr economi greadigol mewn rhanbarth. Fodd bynnag, roeddem ni'n nodi y byddai'n briodol cynnwys costau sy'n gysylltiedig â thalu talentau sydd wedi'u lleoli yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU wrth weithio dramor ar y cynhyrchiad dan sylw. Gan fod ein safbwynt ar sut dylid trin gwariant y tu allan i'r DU yn cael sylw yn yr adran ar wariant rhyngwladol uchod (o baragraff 3.70 ymlaen), nid ydym yn nodi rhagor o wybodaeth am y nodyn hwn yma. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n nodiadau ar gynnwys costau sy'n gysylltiedig â thalu talentau sydd wedi'u lleoli yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU wrth weithio dramor ar gynhyrchiad gan na chawsom wrthwynebiad i hyn gan neb.

<u>Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr</u>

3.82 **Sut dylid neilltuo costau sy'n gysylltiedig â theithio:** Roedd y rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Pact yn anghytuno â'n dehongliad mai dim ond 'teithio lleol'

gaiff ei ystyried yn rhanbarthol, gan ddweud bod hyn yn cyfyngu gormod.[91] Rhoddodd Pact, ITV a'r BBC enghreifftiau lle roedden nhw'n teimlo bod ein nodiadau yn annheg neu'n mynd yn groes i'r graen, ac yn dadlau y dylai costau o'r fath gael eu cyfrif fel costau rhanbarthol.[92] Un o enghreifftiau Pact oedd pan fydd gweithiwr sydd wedi'i leoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn teithio i Lundain i gymryd rhan mewn gwaith golygu, neu hyfforddiant, a bod hynny'n amlwg yn dwyn budd i dalent a chynyrchiadau rhanbarthol. Dywedodd Channel 5 fod costau teithio yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at y logisteg weithredol o wneud cynyrchiadau rhanbarthol, ac y dylid eu cynnwys felly.[93] Roedd yn well gan y BBC, Channel 4 a Channel 5 y canllawiau ar y cyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn hytrach na'n canllawiau ni yng nghyswllt costau teithio.[94] Mynegodd ITV a Channel 4 bryderon hefyd ynghylch y baich y byddai ein cynnig yn ei roi ar gwmnïau cynhyrchu i orfod dadansoddi a chategoreiddio costau o'r fath.[95] Roedd y BBC yn poeni y gallai'r cynnig atal cwmnïau rhanbarthol rhag gwneud cais am gomisiynau sy'n cynnwys ffilmio ar-leoliad.[96] Un awgrym a wnaethpwyd gan ITV, a oedd yn unol â'u harfer ar hyn o bryd, oedd bod hanner cost unrhyw deithio i Lundain neu o Lundain, neu'r gwledydd y tu allan i' r DU, yn cael ei ystyried yn rhanbarthol. Dywedodd eu bod yn ceisio defnyddio cwmnïau cludo lleol, hyd yn oed pan fydd y siwrneiau'n dechrau'n neu'n gorffen yn Llundain, ac y byddai atal y gwariant hwn rhag cael ei ystyried yn gallu arwain at symud gwariant yn ôl i Lundain os gwelwyd bod hyn yn rhatach neu'n fwy effeithlon yn weithredol.[97]

3.83 **Sut dylid neilltuo costau gorbenion:** Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r nodiadau ond am i ni fynd gam ymhellach. Dywedodd yr Indie Club y dylem ni fynd ati'n benodol i egluro nad oes modd ystyried gorbenion yn Llundain yn wariant rhanbarthol, ac roedd y BBC a Channel 5 yn galw am ragor o wybodaeth ynghylch beth rydym ni'n ei olygu wrth ddyrannu costau 'pro rata'. [98] Roedd Llywodraeth yr Alban yn credu y dylem ni fonitro cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n dyrannu costau corfforaethol i'r gwledydd a'r rhanbarthau sydd yn cael eu cynnwys yn y cwotâu wedyn.[99] Roedd ITV yn anghytuno â'r nodiadau. Dywedodd pan na fydd cynhyrchiad yn gymwys ar gyfer y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oes costau gorbenion yn codi yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Defnyddiodd enghraifft fod cynyrchiadau ITV yn Llundain yn gallu defnyddio adnoddau swyddfeydd rhanbarthol ITV ym Manceinion, a bod y costau cysylltiedig yn codi go iawn yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[100]

---

[91] Y BBC, tudalennau 18-20; ITV, tudalennau 9-10; Channel 4, tudalennau 14-15; Viacom International Media Networks/Channel 5,tud. 5; Pact, tud. 8
[92] Pact, tud. 8; ITV, tud. 9; Y BBC, tud. 18
[93] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 5
[94] Viacom International Media Networks/Channel 5,tud. 5; Channel 4, tud. 14; Y BBC, tud. 20
[95] ITV, tud. 9; Channel 4, tud. 14
[96] Y BBC, tud. 19
[97] ITV, tud. 9
[98] Indie Club, tud. 14; Y BBC, tud. 20; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 6
[99] Llywodraeth yr Alban, tud.6
[100] ITV, tud. 10

Ein penderfyniad

3.84 **Sut dylid neilltuo costau sy'n gysylltiedig â theithio:** Roedd yr enghreifftiau a roddodd Pact, ITV a'r BBC mewn perthynas â'r costau teithio o fudd i ni allu deall, ac yn dangos lle roedden nhw'n meddwl bod ein nodiadau yn cyfyngu gormod. Fe wnaethom ni ofyn i rai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am ragor o wybodaeth am sut mae costau o'r fath yn cael eu dyrannu mewn amrywiol sefyllfaoedd. Wrth ystyried yr wybodaeth a roddwyd, yn ogystal ag ymatebion ar y pwnc, rydym ni'n cydnabod bod rhai enghreifftiau, fel cludo talentau i wlad y tu allan i'r DU ac yn ôl eto, neu gludo talentau o'r gwledydd a'r rhanbarthau i Lundain ac yn ôl eto, lle mae modd ystyried yn rhesymol bod y costau cysylltiedig er budd talentau a chynyrchiadau rhanbarthol. Wrth ystyried hyn, yn ogystal â bwriad y polisi, rydym ni wedi penderfynu newid y nodiadau y gwnaethom ni eu cynnig yn yr Ymgynghoriad. Rydym ni wedi ymhelaethu ar ein hamod blaenorol mai dim ond costau 'teithio lleol' yn y DU y tu allan i Lundain sy'n gallu cael eu hystyried yn wariant rhanbarthol. Mae ein nodiadau erbyn hyn yn egluro bod cost teithio lawn (unffordd neu ddwy ffordd) yn gallu cael ei neilltuo fel gwariant rhanbarthol os yw'r man cychwyn yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn yn caniatáu cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â thalent sy'n teithio o'r gwledydd a'r rhanbarthau i Lundain neu i leoliad ffilmio dramor ac yn ôl eto, yn ogystal ag unrhyw gostau teithio y tu allan i Lundain yn y DU.

3.85 **Sut dylid neilltuo costau gorbenion:** Fel y nododd ITV, efallai y bydd achosion pan fydd costau gorbenion mewn cynhyrchiad yn codi go iawn yn y gwledydd a'r rhanbarthau er nad ydyn nhw wedi bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Rydym ni'n cytuno ei bod yn deg cyfrif bod costau o'r fath yn wariant rhanbarthol. Felly, rydym ni wedi penderfynu symleiddio ein nodiadau yn unol â hynny i egluro y dylid dosrannu gorbenion yn rhesymol i'r lleoliad y mae pob un o'r gorbenion yn berthnasol iddo (h.y. y swyddfa neu'r ganolfan maen nhw'n helpu i'w cynnal), a allai fod yn ganolfan sylweddol a/neu ganolfannau cynhyrchu eraill, ar yr amod eu bod wedi cael eu defnyddio ar gyfer y cynhyrchiad dan sylw. Rydym hefyd wedi penderfynu symleiddio ein nodiadau a gynigir yng nghyswllt dyrannu costau 'pro rata'. Ni fyddwn ni'n defnyddio'r term hwn ac yn lle hynny, mae ein nodiadau'n egluro os oes gan gynhyrchiad amryw o swyddfeydd ar draws y DU, a bod costau gorbenion yn cael eu rhannu rhwng y swyddfeydd hyn (gan gynnwys Llundain o bosib), byddem yn disgwyl i'r cwmni fabwysiadu 'dull rhesymol' o ddyrannu costau o'r fath. Nid ydym yn credu bod yn rhaid i ni roi cyfarwyddiadau mwy penodol ynghylch sut mae gwneud cyfrifiadau o'r fath. O ran cais yr Indie Club yn gofyn i ni nodi'n glir nad oes modd ystyried gorbenion Llundain, rydym ni'n cytuno bod gwerth egluro mwy am hyn, ac rydym ni wedi ychwanegu'r esboniad hwn i'n nodiadau symlach ar orbenion. Rydym ni hefyd yn credu y bydd yr eglurhad ychwanegol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i Lywodraeth yr Alban, a awgrymodd y dylem ni fonitro cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n cyfrif costau corfforaethol yn y cwota gwledydd a'r rhanbarthau. Nid oes modd i ni edrych ar bob teitl yn fanwl, a chyfrifoldeb y darlledwyr yw sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni, ond byddwn yn cadw'r awgrym mewn cof wrth ystyried archwiliadau yn y fan a'r lle (mae ein prosesau cydymffurfio a gorfodi wedi'u nodi yn Adran 4).

Sylwadau ychwanegol

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.86 Y tu hwnt i'n cynigion penodol yn yr Ymgynghoriad, awgrymodd y BBC hefyd fod y term "gwariant" yn fwy priodol na'r term "cyllideb", wrth ystyried mai diben y maen prawf hwn yw cydnabod yr arian sy'n cael ei wario ar gynhyrchiad rhanbarthol.[101] Gan wneud yn glir y dylai costau gael eu hystyried yn wariant go iawn ar y cynhyrchiad yn hytrach na gwariant sydd wedi'i gyllidebu. Nododd fod edrych ar y sefyllfa fel hyn yn golygu bod modd cynnwys y ffi cynhyrchu wrth gyfrifo'r gyllideb cynhyrchu os bydd yn cael ei gwario ar y cynhyrchiad dan sylw.

3.87 Hefyd, awgrymodd ITV ddau newid i eiriad nod cyffredinol y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu, mae'r geiriau dan sylw wedi'u tanlinellu: *"… i fodloni'r maen prawf hwn, dylai cyflenwr wneud cyfraniad ariannol sylweddol i'r economi greadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU – er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfleusterau lleol neu ranbarthol sy'n ymwneud â chynhyrchu."*

3.88 Dywedodd mai'r cynhyrchiad ei hun ddylai fodloni'r meini prawf, a gallai 'cyflenwr' gyfeirio at gwmnïau sy'n cael eu defnyddio gan y cynhyrchwyr. Roedd yn awgrymu felly ein bod yn newid 'cyflenwr' i 'cwmni cynhyrchu'.[102] Roedd hefyd yn dadlau nad yw buddion economaidd cynhyrchiad yn gyfyngedig i'r 'economi greadigol' a bod cryn dipyn o wariant rhanbarthol yn digwydd mewn sectorau y tu allan i'r economi greadigol megis cludiant, arlwyo, diogelwch, cyfreithiol a chyllid, a bod hyn yn rhan ddilys ac angenrheidiol o'r gwariant ar raglenni. Roedd yn awgrymu felly ein bod yn rhoi 'lleol' yn lle 'creadigol'.

3.89 Dywedodd Channel 5 ei fod yn credu bod camgymeriad yn y Canllawiau newydd a gynigir ym mharagraff 7 sy'n esbonio bod cyllid trydydd parti yn cael ei eithrio, ond o dan y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu, mae cyllid trydydd parti yn cael ei gynnwys.[103] Awgrymodd ITV hefyd ein bod yn rhoi mwy o eglurhad yma.[104]

3.90 Mynegodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon bryder bod cyfran sylweddol o'r gyllideb cynhyrchu yr ystyrir ei bod yn cael ei gwario yng Ngogledd Iwerddon yn llifo'n ôl i Lundain, mewn gwirionedd. Gan gydnabod ei bod yn gallu bod yn anodd diffinio a mesur hyn, awgrymodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon y gallai'r gwelliannau yn y Canllawiau, ynghyd â phroses adrodd well a phroses gwyno fwy amlwg, helpu i osod safonau cliriach y gallai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn atebol iddyn nhw yn y pen draw.[105]

Ein penderfyniad

---

[101] Y BBC, tud. 16
[102] ITV, tud.8
[103] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 6
[104] ITV, tud. 9
[105] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 3-4

3.91 Mewn perthynas ag awgrym y BBC i ddefnyddio'r term “gwariant” yn hytrach na’r term “cyllideb”, rydym ni'n cytuno â'r rhesymau a amlinellir yn ei ymateb (fel y nodir uchod) ac rydym ni wedi penderfynu newid hyn yn ein Canllawiau. O hyn ymlaen, byddwn ni’n cyfeirio at y maen prawf fel ‘maen prawf ar gyfer gwariant y cynhyrchiad’.

3.92 Rydym ni’n cytuno hefyd â'r rhesymeg yn ymateb ITV i'r newidiadau i'r termau a ddefnyddir wrth egluro nod y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu. O’r herwydd, rydym ni wedi penderfynu newid ‘cyflenwr’ i ‘cynhyrchiad’ gan mai ar y cynhyrchiad ei hun mae’r maen prawf yn canolbwyntio, yn hytrach na'r cwmni sy'n gwneud y cynhyrchiad. Rydym hefyd wedi newid y term ‘creadigol’ i ‘lleol’ wrth ystyried y buddion ehangach y gellir eu cael wrth fodloni'r maen prawf.

3.93 O ran awgrym Channel 5 bod camgymeriad yn y Canllawiau yng nghyswllt gwariant trydydd parti, yn ogystal â chais ITV am fwy o eglurder, byddem yn nodi bod paragraff 7 o'r Canllawiau (paragraff 8 yn y Canllawiau ar eu newydd wedd) yn wahanol i'r maes prawf ar gyfer gwariant cynyrchiadau. Y nod yw egluro sut dylid defnyddio’r tri maen prawf gyda'i gilydd mewn perthynas â chwotâu gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus benderfynu yn gyntaf a yw teitl wedi bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol. Wrth wneud hynny, ac wrth weld a yw’r maen prawf ar gyfer gwariant y cynhyrchiad wedi cael ei fodloni, fel yr eglurwyd yn gynharach, *dylid* cynnwys cyllid trydydd parti. Ond, pan fydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynd ati wedyn i asesu eu cwota gwariant cyffredinol, dim ond ar eu gwariant eu hunain y dylen nhw seilio hyn, a *pheidio cynnwys* unrhyw gyllid trydydd parti. Rydym ni wedi gwneud mân newidiadau i'r geiriad yn y Canllawiau er mwyn gwneud hyn yn glir.

3.94 Rydym ni’n credu y dylai ein newidiadau i'r ffi cynhyrchu, a’r eglurhad ynghylch pa wariant ddylai gael ei ystyried yn wariant rhanbarthol, leddfu’r pryderon a godwyd gan Bwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon am arian yn llifo’n ôl i Lundain.

Meini prawf terfynol

Maen prawf b): Gwariant cynhyrchiad

Dylai o leiaf 70% o wariant y cynhyrchiad gael ei wario yn y DU y tu allan i'r M25. At ddibenion cyfrifo hyn, dylid seilio gwariant y cynhyrchiad ar wariant cyfan y cynhyrchiad, gan gynnwys unrhyw gyllid gan drydydd partïon a gwariant y tu allan i'r DU, ond dylid eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau, costau hawlfraint ac unrhyw ffi cynhyrchu.

Nod: Amcan y maen prawf hwn yw sicrhau buddsoddiad gwirioneddol ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu y tu allan i'r M25. Rydym ni o'r farn, er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, y dylai cynhyrchiad wneud cyfraniad ariannol arwyddocaol i'r economi leol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU – er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfleusterau lleol neu ranbarthol sy'n ymwneud â chynhyrchu.

Nodiadau:

- *Dylai costau gorbenion gael eu dosrannu'n rhesymol i'r lleoliad(au) y mae pob un o'r gorbenion yn berthnasol (a allai fod yn ganolfan sylweddol a/neu un neu fwy o ganolfannau cynhyrchu). Byddai'n briodol categoreiddio'r costau cynnal sy'n gysylltiedig â chadw canolfan yn weithredol yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel gwariant rhanbarthol. Os oes gan gwmni cynhyrchu amryw o swyddfeydd ar draws y DU, a bod costau o'r fath yn cael eu rhannu rhwng y swyddfeydd hyn (gan gynnwys yn Llundain), byddem yn disgwyl i'r cwmni fynd ati'n rhesymol i ddyrannu'r costau hyn. Ni ddylai costau sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal a chadw adeiladau yn Llundain gael eu hystyried yn wariant rhanbarthol.*
- *Wrth neilltuo costau teithio, dylid ystyried bwriad y polisi. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol categoreiddio costau rhanbarthol yn gostau sy'n cael eu gwario ar gludo talentau/offer o Lundain/gwledydd y tu allan i'r DU i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mae gwariant ar deithio'n gallu cael ei neilltuo fel gwariant rhanbarthol os yw'r man cychwyn yn y gwledydd a'r rhanbarthau.*
- *Ni ddylai'r ffi cynhyrchu gael ei chynnwys yng ngwariant y cynhyrchiad. Ond, mewn achosion lle mae rhywfaint o'r ffi cynhyrchu yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau'r cynhyrchiad (er enghraifft, pan fydd cynhyrchiad wedi defnyddio mwy na'i gyllideb), yna mae modd cynnwys y swm hwnnw yng ngwariant y cynhyrchiad.*
- *Dylai gwariant y tu allan i'r DU gael ei gynnwys fel rhan o wariant y cynhyrchiad ond nid ei gynnwys fel gwariant rhanbarthol (h.y. nid yw'n cyfrannu tuag at y trothwy 70%). Fodd bynnag, byddai'n briodol, er enghraifft, i gynnwys costau sy'n gysylltiedig â thalu talentau'r DU sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarthau wrth weithio dramor ar y cynhyrchiad dan sylw, fel gwariant rhanbarthol.*

Newidiadau i'r meini prawf: Talent oddi ar y sgrin

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.95 Nid oeddem yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin, ac felly bydd y maen prawf hwn yn aros yr un fath. Er ein bod wedi ystyried amryw o opsiynau, roeddem ni'n teimlo y gallai newidiadau o'r fath arwain at effaith negyddol a chyfyngu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i dalentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. O ran talentau ar y sgrin, fe wnaethom nodi yn yr Ymgynghoriad hefyd nad oeddem ni'n bwriadu newid y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin na'r maen prawf ar gyfer gwariant y cynhyrchiad i gynnwys talentau ar y sgrin, oherwydd gallai cost talent ar y sgrin, sy'n aml yn sylweddol, arwain at gam-ystumio'r ffordd y mae'r cwotâu yn cael eu gweithredu. Roeddem ni'n teimlo hefyd na fyddai'n rhesymol cyflwyno rhwymedigaeth i fynnu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnal sesiynau castio lleol yn ardal y cynhyrchiad, ac y byddai'n well i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddelio â chyfleoedd ar gyfer talentau ar y sgrin.

3.96 Roeddem ni hefyd yn cynnig darparu rhywfaint o nodiadau esboniadol i ateb y cwestiynau penodol sy'n cael eu codi gan randdeiliaid am y maen prawf hwn.

Crynodeb o sylwadau a'n penderfyniad

Talent oddi ar y sgrin

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.97 Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi ein penderfyniad i beidio â newid y maen prawf ar gyfer talentau gan gynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, y BBC, yr Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograff a Theatr (BECTU), Channel 4, Channel 5, STV a Llywodraeth yr Alban.[106] Ond, roedd rhai ymatebwyr yn galw am gynnwys rhagor o fanylion yn y Canllawiau. At ei gilydd, Ofcom yn ychwanegu rhagor o fanylion, yn hytrach na newid y maen prawf ei hun, oedd y pwyslais yn yr awgrymiadau hyn. Er roedd rhai'n awgrymu y dylem ni barhau i adolygu'r maen prawf hwn a monitro'r lefel 50% er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol ar gyfer talentau oddi ar y sgrin.[107] Er enghraifft, dywedodd TAC fod llawer o gwmnïau sefydledig yng Nghymru, ac awgrymodd ein bod ni'n ystyried cynyddu'r trothwy 50% yn y gwledydd.[108] Roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn hanfodol ein bod yn deall yn well sut mae talent yn cael ei ddosbarthu er mwyn asesu a oes modd codi'r lefel 50% yn y dyfodol. Roedden nhw'n croesawu'r cynnig yn ein hymgynghoriad i gynnal arolwg ymysg cynhyrchwyr am y rheswm hwn (byddwn ni'n trafod yr arolwg yn fwy manwl yn Adran 5).[109]

---

[106] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 4; Y BBC, tud. 22; BECTU, tud. 2; Channel 4, tud. 14; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 6; Llywodraeth yr Alban tud. 7; STV tud. 4
[107] BECTU, tud. 2; Indie Club, tud. 20; Llywodraeth Cymru, tud. 5; TAC, tud. 6
[108] TAC, tud. 6.
[109] Llywodraeth Cymru, tud. 5.

3.98 Awgrymodd ambell un o'r ymatebwyr fod angen i ni sicrhau bod y dalent sy'n creu'r lefel 50% yn cynnig amrywiaeth o rolau ar wahanol lefelau o swyddi uwch, fel nad dim ond drwy swyddi lefel is y mae modd bodloni hyn. Awgrymodd Directors UK y dylem fynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn monitro ac yn adrodd ar y rolau penodol sy'n creu'r dalent i fodloni'r maen prawf hwn. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu talentau mewn swyddi cynhyrchu allweddol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[110] Yn yr un modd, awgrymodd Indie Club y dylid cynnwys haenau swyddi uwch a lefel y dalent yng ngeiriad y maen prawf fel bod yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflogi talent y tu allan i Lundain i uwch swyddi cynhyrchu i helpu i ddatblygu mwy ar y sector cynhyrchu y tu allan i Lundain. Awgrymodd hefyd y dylid diweddaru nod y maen prawf i esbonio mai'r amcan yw sicrhau cyfleoedd gwaith go iawn mewn amrywiaeth o rolau gwahanol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[111]

3.99 Yn debyg i sylwadau a roddwyd mewn perthynas â'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai Ofcom roi rhagor o arweiniad ar yr hyn y mae 'man gwaith arferol' yn ei olygu er mwyn bod yn gliriach. Er enghraifft, esboniodd Channel 4 fod hyn yn aml yn fater dadleuol ac roedden nhw'n credu y dylai Ofcom ddiffinio'r term hwn i roi eglurhad ac arweiniad pellach ar ben yr hyn sydd yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[112] Yn yr un modd, roedd Pact yn cefnogi'r manylder a oedd yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ond bydden nhw'n croesawu gweld Ofcom yn cynnwys y diffiniadau hyn er mwyn rhoi rhagor o eglurhad. I helpu i ddiffinio 'man gwaith arferol', ailadroddodd Tern ei bwynt a wnaeth yn y Cais am Dystiolaeth, y byddai 'man talu treth' yn well ar gyfer yr Alban.[113]

3.100 I sicrhau cysondeb, awgrymodd Llywodraeth Cymru y dylai'r maen prawf ar gyfer talentau nodi y dylai man gwaith arferol y talentau sy'n gweithio ar y cynhyrchiad fod y tu allan i'r M25 *cyn iddyn nhw gael eu cyflogi ar y cynhyrchiad*.[114]

3.101 Awgrymodd yr Indie Club ofynion ychwanegol hefyd o ran y maen prawf ar gyfer talentau i helpu i greu gwaith yn ardal y ganolfan sylweddol, ac atal talentau rhanbarthol rhag gorfod teithio i Lundain drwy'r amser. Dywedodd, pan roedd y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn cael ei ddefnyddio, roedd yn rhaid i isafswm o 25% o'r talentau oddi ar y sgrin fod â'u man gwaith arferol yn is-ranbarth y ganolfan sylweddol honedig.[115] Cyfeiriodd yr Indie Club, ynghyd â rhai ymatebwyr eraill, at yr arfer hefyd o gyflogi talentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau i weithio yn Llundain er mwyn bod yn gymwys i fod yn rhanbarthol, a rhoddwyd enghreifftiau o hysbysebion swyddi fel tystiolaeth.[116]

---

[110] Directors UK, tudalennau 4-8
[111] Indie Club, tudalennau 15-17
[112] Channel 4, tud. 15
[113] Tern, tud. 2
[114] Llywodraeth Cymru, tud. 5
[115] Indie Club, tudalennau 15-17
[116] Indie Club, tud. 18; Ymateb dienw 2, tud. 15

Ein penderfyniad

3.102 Ar hyn o bryd, nid ydym yn meddwl ei bod yn briodol cynyddu lefel y maen prawf hwn. Rydym yn credu bod y lefel bresennol yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i dalentau sydd yn Llundain gael eu defnyddio mewn achosion lle nad yw'n bosib llenwi swyddi yn lleol.

3.103 Er nad ydym yn meddwl ei bod yn briodol i Ofcom nodi sut dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflawni'r maen prawf ar gyfer talentau, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd y drefn o ran datblygu talent ar amrywiol lefelau y tu allan i Lundain. Nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol mynnu bod pob cynhyrchiad unigol yn defnyddio talentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar bob lefel. Rydym ni'n cydnabod, mewn rhai achosion, er enghraifft pan fydd genre newydd yn cael ei gyflwyno i ardal, bod angen hyblygrwydd i alluogi talentau uwch o Lundain i gael eu cyflogi ar y cynhyrchiad i helpu i hyfforddi a datblygu talentau. Ond, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig bod y drefn drwyddi draw yn ceisio defnyddio a chynnig cyfleoedd i dalentau ar bob lefel yn y gwledydd a'r rhanbarthau. O'r herwydd, rydym ni wedi penderfynu diweddaru'r geiriad yn 'nod' y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin yn y Canllawiau, fel a ganlyn: *"Nod y maen prawf hwn yw sicrhau cyfleoedd swyddi creadigol go iawn ar draws amrywiol lefelau o swyddi uwch ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau".*

3.104 Fel sydd wedi'i egluro mewn perthynas â'r ganolfan sylweddol, nid ydym yn credu ei bod hi'n ymarferol defnyddio statws treth rhywun i bennu eu man gwaith arferol (gweler paragraff 3.53). Ond, rydym ni'n cytuno â'r ymatebwyr y gallem ni fod yn gliriach o ran yr hyn a olygwn wrth y term 'man gwaith arferol' ac o'r herwydd, rydym ni wedi ychwanegu mwy at y nodiadau ar gyfer y maen prawf hwn. Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 3.55, rydym ni'n cytuno â'r diffiniad yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n egluro mai man gwaith arferol rhywun yw'r man lle maen nhw'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gweithio, a byddwn yn mabwysiadu hyn. Ond, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol i Ofcom fynd mor bell â'r canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i geisio diffinio beth mae 'rhan fwyaf o'u hamser' yn ei olygu.

3.105 Rydym ni wedi ystyried awgrym Llywodraeth Cymru ym mharagraff 3.100 i wneud y maen prawf ar gyfer talentau yn gyson, ac rydym ni wedi penderfynu y gallai'r newid hwn gyfyngu gormod. Er ein bod yn disgwyl y bydd man gwaith arferol y rhan fwyaf o'r talentau wedi'i sefydlu cyn iddyn nhw gael eu cyflogi ar gynhyrchiad, ni fyddem am atal talentau rhag symud os oes rhywun yn dymuno symud go iawn.

3.106 Mae'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r drefn gyfan, ac o fewn y maen prawf hwn, yn caniatáu amrywiaeth yn y cwmnïau cynhyrchu, ac mae'n hybu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth eang o dalent ar draws y DU. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae'r maen prawf yn caniatáu i dalentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau weithio yn y wlad neu'r is-ranbarth lle maen nhw wedi'u lleoli, neu mewn lleoliadau eraill sy'n gallu bod yn bwysig i'w helpu i ddatblygu sgiliau mewn meysydd a genres newydd. Mae cynnal yr hyblygrwydd hwn yn

bwysig fel nad yw'r drefn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i dalentau neu'n cyfyngu cwmnïau cynhyrchu. Rydym ni'n credu bod yr awgrymiadau a gyflwynir ym mharagraff 3.101 i gyfyngu ar dalent i weithio mewn lleoliadau daearyddol penodol yn rhy fanwl, ac y gallai hyn gyfyngu ar yr hyblygrwydd hwn a'r cyfleoedd ar gyfer talentau. Felly, rydym ni wedi penderfynu peidio â chynnwys yr awgrymiadau hyn yn y Canllawiau.

Talent ar y sgrin

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.107 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn siomedig nad oeddem ni wedi cynnig newid y Canllawiau i gynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer talentau ar y sgrin. Roedd hyn yn cynnwys Equity a oedd o'r farn mai ychydig o gyfleoedd oedd ar gyfer talent leol ac yn credu y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynnig mwy o gyfleoedd i dalentau rhanbarthol ar y sgrin. Er bod Equity yn gwerthfawrogi ein pryderon y gallai costau talent ar y sgrin gam-ystumio'r cwotâu, roedden nhw'n awgrymu bod ffyrdd eraill o gynnig cyfleoedd i dalentau lleol. Byddai modd gwneud hyn drwy system bwyntiau neu drwy gynnwys dyletswydd i gynnal o leiaf un sesiwn gastio, neu gyfres o glyweliadau yn y wlad neu'r rhanbarth mae'r rhaglen yn cael ei gwneud.[117]

3.108 Roedd ymatebwyr eraill o blaid gosod dyletswydd ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnal sesiynau castio lleol. Awgrymodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y byddai hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i dalentau creadigol ffynnu yng Nghymru a gwella darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[118] Yn ogystal â hyn, cawsom 64 ymateb wedi'u geirio'n debyg gan unigolion ynghylch talent ar y sgrin. Roedd yr ymatebion hyn hefyd yn mynegi siom â'n penderfyniad i beidio â chynnwys talentau ar y sgrin yn y meini prawf a'r Canllawiau. Esboniodd ymatebwyr am bwysigrwydd talent leol i economïau creadigol rhanbarthol yn ogystal â manteision castio lleol, fel cynnig cyfleoedd i berfformwyr rhanbarthol a sicrhau mwy o amrywiaeth ac ystod o dalent.[119]

3.109 Roedd Equity yn siomedig hefyd nad oedd ein sylwadau o'r ddogfen ymgynghori ynghylch bod talentau lleol ar y sgrin yn rhan bwysig o'r diwydiant, wedi cael eu cynnwys yn y Canllawiau ei hun. [120] Er mwyn sicrhau nad yw pwysigrwydd castio lleol yn diflannu'n llwyr, roedd Equity yn dadlau y dylid cyfeirio at hyn yn y Canllawiau, y tu hwnt i eithrio talent ar y sgrin yn unig. Yn yr un modd, awgrymodd Llywodraeth Cymru hefyd y dylai sylwadau Ofcom ar sesiynau castio lleol gael eu cynnwys mewn atodiad i'r Canllawiau, er mwyn helpu i gyfleu'r pwyntiau hyn fel bod darlledwyr yn gallu bod yn ymwybodol ohonynt mewn cynyrchiadau yn y dyfodol.[121]

---

[117] Equity, tud. 1
[118] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, tudalennau 1-2; Llywodraeth yr Alban, tud. 45
[119] Ymateb ynghylch talent ar y sgrin
[120] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018 tud. 37
[121] Llywodraeth Cymru, tud. 5

3.110 Yn ogystal â'r pwyntiau hyn, gofynnodd Channel 4 i Ofcom ystyried sut rydym ni'n categoreiddio rolau heb ddim siarad ynddynt yn y maen prawf hwn. Eglurodd er bod y talentau hyn ar y sgrin, maen nhw'n aml yn dalent leol, ac felly'n cyfrannu at yr economi leol a'r ecoleg gynhyrchu yn y rhanbarth.[122]

Ein penderfyniad

3.111 Rydym ni'n dal o'r farn na ddylai talent ar y sgrin gael ei gynnwys yn y meini prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin a gwariant y cynhyrchiad. Rydym yn credu hyn, waeth beth yw'r math o rôl sydd gan y talentau ar y sgrin, rôl siarad neu ddim. Fel sydd wedi'i nodi yn yr Ymgynghoriad, yn ogystal â'r ffaith bod costau talent ar y sgrin yn gallu cam-ystumio'r cwotâu, rydym ni'n ymwybodol hefyd na ddylid ehangu telerau'r maen prawf a gwanhau'r cyfleoedd sydd ar gael i dalentau oddi ar y sgrin.[123] Rydym ni'n dal o'r farn hefyd na fyddai'n rhesymol i'r rheoleiddiwr osod dyletswyddau penodol mewn perthynas â lleoliadau sesiynau castio.

3.112 Ond, rydym ni'n gwerthfawrogi'r pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid ynghylch nad oes unrhyw gyfeiriad at dalent ar y sgrin a pham ei fod wedi cael ei eithrio o'r maen prawf yn y Canllawiau. Felly, rydym ni wedi penderfynu cynnwys y testun canlynol yn y Canllawiau diwygiedig yn y nodiadau i'r maen prawf hwn i egluro ein safbwynt i ddefnyddwyr y Canllawiau: *"Mae talent ar y sgrin yn rhan bwysig o dirwedd cynyrchiadau rhanbarthol a dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnig cyfleoedd i dalentau ar y sgrin yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mae wedi cael ei eithrio o'r maen prawf hwn er mwyn sicrhau bod y cwotâu'n dal yn canolbwyntio ar arbenigedd cynhyrchu yn y rhanbarthau ac, yn bwysicach fyth, sicrhau nad yw'r cwotâu'n cael eu cam-ystumio gan gost sylweddol talentau ar y sgrin mewn rhai cynyrchiadau (gan gynnwys cynyrchiadau drama, ond heb eu cyfyngu i'r rhain)".*

Nodiadau esboniadol

3.113 Roedd y nodiadau roeddem ni'n eu cynnig o ran y maen prawf ar gyfer talent oddi ar y sgrin yn cynnwys y meysydd canlynol:

- **A yw'r talentau cynhyrchu yn golygu pawb sydd ar y gyflogres:** Roeddem ni'n cynnig mai dim ond costau talent, sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol yn rhan o'r broses greadigol o wneud y rhaglen, y byddem yn disgwyl i gwmnïau cynhyrchu eu neilltuo fel gwariant rhanbarthol. Fodd bynnag, roeddem ni'n cydnabod bod hynny, mewn rhai achosion, yn gofyn am rywfaint o synnwyr cyffredin.
- **A yw'r talentau sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio y tu allan i'r M25 yn cyfrif fel talent ranbarthol:** Fe wnaethom ni esbonio nad oes gwahaniaeth sut mae'r talentau'n cael eu cyflogi, mae'r maen prawf yn nodi ei bod yn rhaid i dalentau llawrydd fyw y tu allan i'r M25.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

[122] Channel 4, tud. 14
[123] Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol: Ymgynghoriad, Rhagfyr 2018 tud. 37

3.114 **A yw'r talentau cynhyrchu yn golygu pawb sydd ar y gyflogres:** O'r rheini a ymatebodd i'r nodiadau esboniadol ynghylch y maen prawf hwn, y nodyn hwn a gafodd y nifer fwyaf o sylwadau. Er bod rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'n ffordd o gyfyngu'r diffiniad o dalent cynhyrchu i rolau creadigol[124], roedd y rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Pact yn anghytuno gyda'r awgrym hwn, gan argymell y dylem ni fabwysiadu'r geiriad sydd yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y dadleuon yn erbyn hyn yn rhoi sylw i'r ffaith bod y diffiniad yn rhy gaeth gyda phryderon y byddai'r term yn cyfyngu gormod ac yn cael ei ddehongli'n rhy benodol. Roedden nhw hefyd yn dadlau bod pob rôl sy'n rhan o gynhyrchiad yn hanfodol i'w lwyddiant, a bod pob rôl ar gynhyrchiad yn cynnig gwerth ac yn rhan o'r diwydiant cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[125] Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru yn cytuno â'n ffordd, ond yn derbyn nad yw gwahaniaethu rhwng y doniau creadigol a rolau ymylol yn ymarferol bob amser.[126]

3.115 **A yw'r talentau sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio y tu allan i'r M25 yn cyfrif fel talent ranbarthol:** Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon a Directors UK yn croesawu'r eglurhad a gafwyd yn y nodyn hwn.[127]

Ein penderfyniad

3.116 **A yw'r talentau cynhyrchu yn golygu pawb sydd ar y gyflogres:** Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, rydym ni'n cydnabod bod defnyddio'r term 'rolau creadigol' yn aneglur ac yn gallu cyfyngu gormod. Ein bwriad oedd ei gwneud yn glir na ddylid cynnwys rolau gwasanaeth a rolau ymylol fel gyrwyr a glanhawyr. Felly, rydym ni wedi penderfynu diweddaru ein nodyn yn y Canllawiau fel a ganlyn: *"Yr hyn a olygwn wrth y term 'talent cynhyrchu' yw'r rheini sy'n cael eu hystyried eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu'r rhaglen. Ni ddylid cynnwys rolau ymylol fel gyrwyr, glanhawyr a staff arlwyo. Mewn rhai achosion, nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o swyddi, ac felly dylai cwmnïau ddefnyddio eu synnwyr cyffredin, gan gadw bwriad y polisi mewn cof."*

3.117 **A yw'r talentau sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio y tu allan i'r M25 yn cyfrif fel talent ranbarthol:** Wrth ystyried y sylwadau cadarnhaol a gawsom am y nodyn hwn, rydym ni wedi penderfynu cynnwys hyn yn y Canllawiau.

Sylwadau ychwanegol

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.118 Roedd yr unig sylw arall a gawsom mewn perthynas â'r maen prawf hwn yn seiliedig ar ein bwriad i ychwanegu nod y maen prawf yn y Canllawiau. Roedd Pact yn cefnogi'r

---

[124] Directors UK, tud. 7; STV, tud. 4,
[125] BBC, tud. 23; Channel 4, tudalennau 14 -15; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 6; ITV, tud. 11; Pact, tud. 11
[126] Pwyllgor Cynghori Cymru, tud. 3
[127] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 4; Directors UK, tudalennau 7-8

esboniad ychwanegol hwn, ac yn credu y byddai'r broses o gyflawni'r maen prawf yn annog cyfleoedd swyddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac yn denu talent o'r ardaloedd hynny.[128]

Ein penderfyniad

3.119 Gan fod cefnogaeth i hyn, rydym ni wedi penderfynu ychwanegu testun ychwanegol i nod y maen prawf yn y Canllawiau. Fel yr esboniwyd yn gynharach (paragraff 3.103), rydym ni wedi ychwanegu rhagor o eiriau i'r nod i gydnabod pwysigrwydd y maen prawf o ran cynnig cyfleoedd ar bob lefel mewn swyddi uwch.

Meini prawf terfynol

Maen prawf c): Talent oddi ar y sgrin

Mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cyfri at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25.

Nod: Nod y maen prawf hwn yw sicrhau cyfleoedd swyddi creadigol go iawn ar draws amrywiol lefelau o swyddi uwch ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Byddai denu talent i'r ardaloedd hynny yn gallu helpu, yn ei dro, i greu canolfannau cynhyrchu rhanbarthol cryf.

Nodiadau:

- *Yr hyn a olygwn wrth y term 'talent cynhyrchu' yw'r rheini sy'n cael eu hystyried eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu'r rhaglen. Ni ddylid cynnwys rolau ymylol fel gyrwyr, glanhawyr a staff arlwyo. Mewn rhai achosion, nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o swyddi, ac felly dylid bod yn ddoeth ynghylch hyn, gan gadw bwriad y polisi mewn cof.*
- *Nid oes wahaniaeth p'un ai a yw'r talentau llawrydd yn cael eu cyflogi drwy stiwdio neu gwmni gwasanaeth sydd wedi'i leoli y tu allan i'r M25, dim ond os byddan nhw'n byw y tu allan i'r M25 y byddan nhw'n cyfrif fel talentau rhanbarthol.*
- *Man gwaith arferol rhywun yw lle mae'r unigolyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser gweithio.*

Mae talent ar y sgrin yn rhan bwysig o dirwedd cynyrchiadau rhanbarthol, a dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnig cyfleoedd i dalentau ar y sgrin yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mae wedi cael ei eithrio o'r maen prawf hwn er mwyn sicrhau bod y cwotâu'n dal yn canolbwyntio ar arbenigedd cynhyrchu yn y rhanbarthau ac, yn bwysicach fyth, sicrhau nad yw'r cwotâu'n cael eu cam-ystumio gan gost sylweddol talentau ar y sgrin mewn rhai cynyrchiadau (gan gynnwys cynyrchiadau drama, ond heb eu cyfyngu i'r rhain).

[128] Pact, tud. 5

Nodyn esboniadol cyffredinol

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.120 Er mwyn gwneud pethau'n fwy eglur a hybu arferion da, ond osgoi effaith negyddol ar hyblygrwydd y meini prawf, fe wnaethom ni hefyd gynnig cyflwyno atodiad i'r Canllawiau yn cynnwys nodiadau esboniadol ar gyfer pob maen prawf. Cafodd y nodiadau esboniadol a gynigiwyd eu gosod yn Atodiad 7 yr Ymgynghoriad[129] ac mae rhagor o fanylion uchod ynghylch beth oedd yn y nodiadau ar gyfer pob maen prawf.

Crynodeb o'r sylwadau

3.121 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i gyflwyno nodiadau esboniadol a'r eglurhad ychwanegol y bydden nhw'n ei gynnig, gan helpu i sicrhau bod y Canllawiau'n cael eu defnyddio'n gywir. Roedd y rhain yn cynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Cymru, a Directors UK.[130]

3.122 Fodd bynnag, gan fod y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 wedi cyhoeddi eu canllawiau eu hunain ar y cyd ar yr arferion gorau i gynhyrchwyr ym mis Rhagfyr 2018, roedd rhai o'r ymatebwyr yn amau gwerth y nodiadau esboniadol, ac roedd rhai, gan gynnwys y BBC ac ITV, o'r farn na ddylid cyflwyno ein nodiadau.[131] Roedd Pact yn holi a oedd modd cyfuno'r nodiadau esboniadol gyda'r canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, oherwydd byddai'n fwy syml i'r cynhyrchwyr gael un set o ganllawiau.[132] Roedd Channel 4 yn cydnabod bod gallu cyfeirio at ddogfen Ofcom yn fuddiol os oes cwestiynau dadleuol yn codi ynghylch dehongliad. Er awgrymodd mai ffordd arall o wneud hyn fyddai i Ofcom gyhoeddi dogfen esboniadol fwy helaeth ar wahân, sy'n cyd-fynd cymaint ag y bo modd â'r canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac yn un y gellid ei diweddaru dros amser.[133] Holodd ITV ynghylch statws cyfreithiol y nodiadau ac ystyried eu bod mewn atodiad yn y Canllawiau, ac roedd Channel 5 yn teimlo y byddai'n fwy defnyddiol ymgorffori'r nodiadau yn y Canllawiau yn hytrach na'u bod mewn atodiad.[134]

Ein penderfyniad

3.123 Fel y nodwyd yn y ddogfen Ymgynghori, nod y nodiadau esboniadol oedd rhoi sylw i elfennau sy'n achosi dryswch a phryder, gan sicrhau bod y meini prawf yn dal yn ddigon hyblyg i gael eu dehongli yn ôl yr hyn sy'n gweddu i amgylchiadau unigol pob cynhyrchiad. Er ein bod yn nodi bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi llunio eu

---

[129] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/130704/Annex-7-Proposed-new-Guidance-and-explanatory-notes.pdf tudalennau 7-10
[130] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tudalennau 3-4; Llywodraeth Cymru, tudalennau 3-5; Directors UK, tudalennau 3-7
[131] Y BBC, tud. 13; ITV, tud. 4; Channel 4, tud. 2; Pact, tud. 11
[132] Pact, tud. 11
[133] Channel 4, tud. 5
[134] ITV, tud. 4; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 8

canllawiau eu hunain i gwmnïau cynhyrchu, nid ydym ni'n cynnig cynnwys hyn yn ein Canllawiau, sy'n rhoi sylw i bob un o'r materion rydym ni'n credu ei bod hi'n briodol rhoi arweiniad arnynt. Mater i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw penderfynu ar y ffordd orau o fodloni rhwymedigaethau eu trwydded yn sgil ein Canllawiau.

3.124 Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch statws y nodiadau esboniadol, rydym ni wedi penderfynu eu cynnwys yn y Canllawiau yn hytrach na chael atodiad ar wahân, fel yr awgrymodd Channel 5. Rydym ni wedi ychwanegu is-adran newydd o dan bob maen prawf, sy'n amlinellu unrhyw nodiadau perthnasol i helpu defnyddwyr i'w rhoi ar waith. Gan fod y nodiadau esboniadol y gwnaethom ni ymgynghori yn eu cylch ar ffurf cwestiynau ac atebion, rydym ni wedi gorfod newid geiriad ac arddull rhai o'r nodiadau gan eu symud i adran flaen y Canllawiau. Ond nid yw ein safbwynt ar sylwedd y nodiadau wedi newid, oni bai fod hyn wedi'i amlinellu uchod wrth i ni ddelio â phob un o'r nodiadau yn eu tro.

Eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.125 Roeddem ni'n cynnig y dylid cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo gael ei eithrio wrth gyfrifo cwota ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn y dyfodol. Y rheswm am hyn oedd ein bod yn credu bod cynnwys o'r fath yn mynd yn groes i fwriad y rhwymedigaethau, gan ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn creu llawer o swyddi neu gyfleoedd datblygu ar gyfer talentau cynhyrchu. Mae'n debygol na ddefnyddir y rolau sy'n gysylltiedig â'r camau arferol yn y gwaith cyn-gynhyrchu, ffilmio a golygu dan arweiniad cyfarwyddwr ar gynhyrchiad teledu arferol, ac felly mae'n bosib mai bach iawn fydd cyfraniad rhaglenni o'r fath at yr economi greadigol leol.

3.126 Mae rhai mathau eraill o gynnwys, fel rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni newyddion, wedi'u heithrio'n barod o gyfrifiadau'r cwota.[135]

Crynodeb o'r sylwadau

3.127 O'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar ein bwriad i eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo o'r cwotâu, roedd y rhan fwyaf yn cytuno, gan gynnwys Channel 4, Channel 5, Llywodraeth yr Alban, Two Rivers Media, Tern, Directors UK, yr Indie Club a TAC.[136] Roedd y BBC, Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, a Llywodraeth Cymru yn cytuno hefyd, gan ddweud nad yw cynnwys o'r fath yn cyfrannu at nod y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.[137]

---

[135] Ewch i baragraff 6 y Canllawiau ar eu newydd wedd i gael rhagor o wybodaeth am y mathau o gynnwys sydd wedi'u heithrio o'r cwotâu

[136] Channel 4, tud. 15; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 6; Llywodraeth yr Alban, tud. 7; Two Rivers Media, tud. 2; Tern, tud. 3; Directors UK, tud. 8; Indie Club, tud.21; TAC, tud. 5

[137] Y BBC, tud. 24; Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 5; a Llywodraeth Cymru, tud. 6

3.128 Fodd bynnag, roedd ITV yn gwrthwynebu'r cynnig hwn yn chwyrn, oherwydd byddai’n golygu nad yw’n gallu cynnwys *Nightscreen* tuag at y cwotâu mwyach. Roedd yn dadlau, fel rhan o’r broses ail-drwyddedu diweddaraf ar gyfer trwyddedau Channel 3 (2014), nid oedd Ofcom yn gweld rheswm dros gynyddu neu leihau dyletswyddau ITV, gan gynnwys y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Roedd o’r farn y byddai rhwymedigaethau a manteision trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ITV yn gytbwys, fwy neu lai, dros gyfnod y drwydded nesaf. Dywedodd ITV hefyd bod Ofcom, wrth ddod i'r casgliad hwn, wedi ystyried bod *Nightscreen* yn cyfrannu at ei gwota cynhyrchu rhanbarthol ar y pryd. Esboniodd ITV hefyd, ers i’r ail-drwyddedu ddigwydd, fod mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd, ochr yn ochr â mwy o bwysau rheoleiddio ar y math o gynnyrch sy’n gallu cael eu hysbysebu ar y teledu. Mae goblygiadau refeniw i ITV yn sgil hyn. Felly, dywedodd na ddylai Ofcom fod yn ceisio ychwanegu rhagor o gostau ar ei drwyddedau, oherwydd gallai hyn effeithio ar ei allu i gyflawni ei gylch gwaith o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus a bodloni anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU.[138]

3.129 Roedd ITV o’r farn hefyd nad oedd dadansoddiad Ofcom yn yr Ymgynghoriad wedi datgan pa mor gymhleth [✂] oedd y newidiadau y gallai fod eu hangen. Roedd yn nodi’r heriau a oedd yn wynebu ITV o ran rheoli mwy nag un cwota rhyngweithiol pan mae’n comisiynu cynnwys, er enghraifft pan fydd rhaglenni’n newid statws ar ganol cynhyrchiad (e.e. pan ddaw’n amlwg yn ystod y ffilmio na fydd yn bodloni cwota penodol), neu pan fydd newidiadau funud olaf i'r amserlen. Yn sgil yr heriau hyn a’r ansicrwydd posib y gall ITV ei wynebu o ran a fydd yn llwyddo i fodloni ei gwotâu, nododd hefyd eu bod yn gweithio i byffer cydymffurfio, o oddeutu 2% fel arfer. Gyda hyn mewn cof, pe byddai *Nightscreen* wedi cael ei eithrio yn 2017, byddai angen i ITV fod wedi [✂]yn lle’r 67 a awgrymwyd yn ein dadansoddiad. Yn ystod y blynyddoedd pan fyddai ITV wedi cydymffurfio heb gynnwys *Nightscreen*, dywedodd y byddai cadw at byffer o 2% wedi golygu bod dal angen [✂]

3.130 [✂]

3.131 Yn gyffredinol, er mor anodd yw mesur yn gywir beth fyddai effaith y cynigion yn y dyfodol, dywedodd ITV eu bod yn teimlo ei bod yn glir y byddai hyn yn cyfyngu mwy ar ITV o'i gymharu â darlledwyr aml-sianel eraill.

3.132 Er ein bod yn cydnabod y byddai'n anodd i ITV fesur union effaith ein cynigion, fe wnaethom ofyn am wybodaeth ychwanegol gan ITV i gefnogi ei honiadau [✂].

3.133 [✂]

Ein penderfyniad

3.134 Ni chawsom sylwadau na thystiolaeth gan randdeiliaid a oedd yn anghytuno mai ychydig y mae cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo yn ei gyfrannu at nod y polisi. O ran yr

[138] ITV, tudalennau 11-12

effaith y caiff y newid hwn ar ddarlledwyr, fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, rydym ni'n cydnabod mai dim ond ar ITV y bydd hyn yn effeithio, ar hyn o bryd, ac felly fe aethom ati i ddadansoddi mwy o'r effaith benodol ar ITV. [✂]

3.135 [✂]

3.136 [✂]

3.137 [✂]

3.138 [✂]

3.139 [✂]

3.140 [✂]

3.141 Mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd gan ITV am yr effaith ar werth ei drwyddedau, mae ITV yn talu swm nominal o £10,000 y flwyddyn ar hyn o bryd ar gyfer pob un o’i drwyddedau. Rydym ni'n nodi, adeg yr adnewyddu trwyddedau blaenorol yn 2014, ein bod wedi cynnal prisiad trwyddedau er mwyn pennu’r telerau ariannol ar gyfer cyfnod y drwydded nesaf. Fe wnaethom ni ystyried ymatebion ITV yn ystod y broses hon. Ni wnaeth ITV briodoli cost cyfle i'r rhwymedigaeth ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Ar ben hynny, byddem ni’n nodi nad oes sicrwydd i drwyddedeion y bydd eu rhwymedigaethau, neu'r Canllawiau mae Ofcom yn eu cyhoeddi, yn aros yr un fath yn ystod cyfnod y drwydded. Mae Ofcom wedi gwneud newidiadau i rwymedigaethau trwydded, mewn achosion blaenorol.

3.142 [✂]

3.143 Rydym yn dal o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod rhaglenni sy'n bodloni'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn cyflawni bwriad y polisi yn well, a thrwy hynny yn rhoi mwy o gyfleoedd i gwmnïau a thalentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym ni’n meddwl bod cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo yn mynd yn groes i fwriad y polisi, gan ei bod yn annhebygol, fel arfer, o greu llawer o swyddi neu gyfleoedd datblygu ar gyfer talentau cynhyrchu, ac mai ychydig y mae hyn yn ei gyfrannu at yr economi greadigol leol. Nid ydym wedi cael dim tystiolaeth nac awgrymiadau gan randdeiliaid a fyddai'n gwneud i ni newid y farn honno. O ran eithrio cynnwys o'r fath, nid ydym yn credu y byddai'r effaith gymaint â’r hyn y mae ITV wedi’i awgrymu, neu y byddai mor sylweddol fel ei fod yn newid ein safbwynt ynghylch rhinweddau'r newid. Byddem ni’n disgwyl i’r effaith ar ITV leihau. O’r herwydd, rydym ni wedi penderfynu eithrio cynnwys o’r fath.

Newidiadau i’r categorïau neilltuo

Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

3.144 Roeddem ni’n cynnig newid rhywfaint ar y Canllawiau o ran neilltuo teitlau i wledydd neu is-ranbarthau penodol er mwyn egluro’n well sut dylai teitlau gael eu neilltuo pan fydd y meini prawf wedi cael eu bodloni ar draws sawl lleoliad. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru'r geiriad yn y Canllawiau a chynnwys tabl o enghreifftiau parod i fynd ati’n

well i egluro'r fethodoleg a ddefnyddir i neilltuo teitlau, a hefyd cyflwyno dau gategori neilltuo newydd: 'Sawl rhanbarth yn Lloegr' a 'Sawl gwlad y tu allan i Loegr'.

Crynodeb o'r sylwadau

3.145 Roedd nifer o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau am y pwnc hwn, yn cefnogi ein cynnig i newid ac egluro, gan gynnwys Channel 4 a Channel 5.[139] Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon eu bod yn cytuno â'r newidiadau i neilltuo i sawl gwlad/rhanbarth, ac yn teimlo y byddai neilltuo teitlau yn fwy perthnasol i'r lle a fyddai'n cael y budd mwyaf, ac y byddai hyn yn cyd-fynd â bwriad y polisi.[140] Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r categorïau newydd hefyd, ond er mwyn cael cysondeb ac er mwyn osgoi dryswch, roedd yn teimlo y dylid ailenwi'r categori 'Sawl gwlad/rhanbarth' yn Sawl gwlad/rhanbarth yn Lloegr'.[141]

3.146 Roedd Pact yn teimlo bod y cynigion ar gyfer y broses neilltuo yn synhwyrol ac yn helpu i egluro'r sefyllfa i gynhyrchwyr. Roedd yn cydnabod penderfyniad Ofcom i beidio â gweithredu ei awgrym a godwyd fel rhan o'r cais am dystiolaeth i neilltuo gwariant ar sail pro rata gan na fyddai hyn yn briodol nac yn gymesur. Awgrymodd y dylai Ofcom fonitro, yn hytrach, sut mae teitlau'n cael eu neilltuo dros amser i weld pa deitlau sy'n cael eu neilltuo i wlad benodol sydd ond yn bodloni geiriad y meini prawf, ac nid y naws.[142]

3.147 Ond, roedd rhai ymatebwyr yn dal yn anfodlon â'r ffordd mae'r broses yn gweithio, gan ei fod yn caniatáu i raglenni gael eu neilltuo i wledydd a rhanbarthau penodol ar sail y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, pan mai ychydig iawn o'r arian, os o gwbl, gaiff ei wario yno neu dim ond ychydig o staff fydd wedi'u lleoli yno.[143] O'r herwydd, galwodd rhai am ragor o ddiwygio, gan gynnwys TAC a ddywedodd, pan fydd cynhyrchiad yn cael ei wneud yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai'r Canllawiau fynnu bod pob un o'r tri maen prawf yn cael eu bodloni yn yr un wlad â'r ganolfan sylweddol er mwyn i'r cynhyrchiad gael ei neilltuo i'r wlad berthnasol honno.[144]

3.148 Ar ben hynny, nid oedd Llywodraeth yr Alban yn meddwl y dylid dibynnu ar y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol fel ffordd ddiofyn o neilltuo teitlau mewn achosion pan fydd rhaglen wedi cael ei gwneud ar draws sawl lleoliad. Yn hytrach, roedd yn credu y dylai fod yn ofynnol i raglen gyfrannu ar ryw lefel sylfaenol at un economi ranbarthol, ac os nad yw'n cyrraedd y lefel hon, yna ni ddylai gael ei chyfri fel cynhyrchiad rhanbarthol, ni waeth lle mae'r ganolfan sylweddol wedi'i lleoli.[145]

3.149 Roedd y BBC am i ni wneud newidiadau pellach i'r broses neilltuo hefyd. Er ei fod yn falch bod y newidiadau roeddem wedi'u cynnig yn galluogi cynyrchiadau sawl rhanbarth

---

[139] Channel 4, tud. 15; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 7
[140] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 5
[141] Llywodraeth Cymru, tud. 6
[142] Pact, tud. 9
[143] Ymateb dienw 1, tud. 4; Ymateb dienw 2, tudalennau 11-13
[144] TAC, tudalennau 5-6
[145] Llywodraeth yr Alban, tud. 7

yn Lloegr i gael eu cynnwys yn y cwota ar gyfer rhanbarthau Lloegr, roedd yn dal am weld Ofcom yn cael gwared â'r categorïau sawl lleoliad yn gyfan gwbl a chaniatáu i deitlau yn yr achosion hyn gael eu neilltuo i le bynnag roedd cyfran fwyaf gwariant y cynhyrchiad. Byddai hyn yn golygu bod modd neilltuo’r holl gynyrchiadau i wlad neu ranbarth penodol y mae modd ei adnabod. Roedd yn credu y byddai hyn yn fwy defnyddiol gan fod categorïau sawl lleoliad yn gallu cuddio effaith gadarnhaol cynyrchiadau rhanbarthol mewn meysydd penodol.[146]

Ein penderfyniad

3.150 Fel yr amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, mae gofyn i deitlau gael eu neilltuo i un ardal o’r DU yn unig yn annhebygol o adlewyrchu go iawn sut cafodd y rhaglen ei gwneud. Rydym ni’n deall hefyd pam nad yw rhai rhanddeiliaid yn gwbl fodlon â'r broses neilltuo.

3.151 Mae’r broses bresennol yn caniatáu i deitlau gael eu neilltuo i'r ardal lle roedd y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol wedi cael ei fodloni, pan nad yw’r maen prawf gwariant a/neu dalentau oddi ar y sgrin wedi cael ei ddiwallu'n llawn mewn un lleoliad i sicrhau bod teitlau’n cael eu neilltuo i isranbarth neu wlad benodol, lle y bo modd. Er ein bod yn cydnabod, yn yr achosion hyn, mai ychydig iawn o’r gyllideb cynhyrchu a/neu wariant ar dalent, os o gwbl, a ddigwyddodd yn y lleoliad hwnnw, os bydd swyddfa yn wirioneddol bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn y wlad honno neu’r isranbarth hwnnw, dylai'r cynhyrchiad hwnnw yn y pen draw fod yn cyfrannu at economi greadigol yr ardal honno, drwy'r arian y mae'r cwmni cynhyrchu yn ei dderbyn, a hefyd drwy greu swyddi yn y ganolfan honno drwy’r cynhyrchiad. O’r herwydd, rydym ni’n credu ei bod yn deg bod teitlau o'r fath yn cael eu neilltuo i’r wlad berthnasol honno neu’r rhanbarth perthnasol hwnnw. Nid ydym yn bwriadu mynnu bod cyfrannau penodol o'r gyllideb neu'r gwariant ar dalentau oddi ar y sgrin yn cael eu gwario mewn gwlad neu is-ranbarth er mwyn i’r cynhyrchiad gael ei neilltuo yno.

3.152 Ond, mewn achosion lle nad yw'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol wedi cael ei fodloni, nid ydym yn credu y byddai'n briodol neilltuo'r teitlau hyn ar sail lle mae'r rhan fwyaf o’r gwariant yn digwydd, fel mae'r BBC yn ei awgrymu. Yn yr achosion hyn, rydym ni’n credu ei bod, yn hytrach, yn fwy tryloyw i ddefnyddio un o'r categorïau sawl lleoliad, gan fod hyn yn adlewyrchu'n fwy cywir sut cafodd y rhaglen ei gwneud, h.y. roedd y meini prawf ar gyfer gwariant a thalentau oddi ar y sgrin wedi cael eu bodloni ar draws sawl gwlad a/neu is-ranbarth, ac fe gafodd ei gwneud gan gynhyrchydd nad oedd o’r gwledydd a'r rhanbarthau. Byddai neilltuo teitlau o'r fath i le mae'r rhan fwyaf o’r gwariant hwn yn digwydd yn cuddio'r realiti.

3.153 Ar y cyfan, rydym yn dal o'r farn mai’r broses bresennol, ynghyd â'r newidiadau bach rydym ni’n eu cynnig, yw'r un fwyaf tryloyw a’r un sy’n dangos fwyaf ymhle mae’r rhaglenni'n cael eu gwneud, yn ogystal â bod yr un fwyaf cymesur heb fod yn rhy gymhleth. Felly, rydym ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r newidiadau roeddem ni wedi’u cynnig. Fodd bynnag, rydym ni’n cytuno ag awgrym Llywodraeth Cymru, a

[146] Y BBC, tudalennau 25-26

byddwn yn ailenwi'r categori 'Sawl gwlad/rhanbarth' yn gategori 'Sawl gwlad/rhanbarth yn Lloegr' i sicrhau eglurder a chysondeb.

Newidiadau i ddiweddaru'r Canllawiau

Yr hyn a ddywedon ni

3.154 Mae angen i ni ddiweddaru'r Canllawiau hefyd i adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2017. Fel sydd wedi'i egluro yn yr Ymgynghoriad, newidiadau bach i'r testun yn y Canllawiau yw'r newidiadau hyn yn bennaf i egluro rôl newydd Ofcom yn well o dan y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith newydd.

3.155 Fe wnaethom ni esbonio ein penderfyniad hefyd i ddileu'r holl wybodaeth ymylol o'r Canllawiau nad yw'n helpu'r defnyddiwr yn uniongyrchol i gyflawni'r dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys dileu unrhyw gyfeiriad at resymeg polisi o fersiynau o'r Canllawiau yn y dyfodol.

3.156 Nid oedd angen i ni ymgynghori ynghylch y newidiadau hyn oherwydd nad oedden nhw'n effeithio ar sut y dylai'r Canllawiau neu'r meini prawf gael eu bodloni.

Crynodeb o sylwadau a'n penderfyniad

3.157 Cawsom nifer fach o sylwadau am y newidiadau hyn. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith ein bod weithiau yn cyfeirio at 'Cytundeb Fframwaith y BBC' yn y Canllawiau ac weithiau'n cyfeirio at 'Cytundeb y BBC'. Awgrymodd y dylem ni gywiro hyn a defnyddio'r teitl llawn yn y Canllawiau cyfan i fod yn gyson.[147] Rydym ni'n cytuno â hyn, ac rydym ni wedi penderfynu ei newid.

3.158 Cafwyd sylwadau gan yr Indie Club a Llywodraeth yr Alban hefyd am ein penderfyniad i ddileu cyfeiriadau at resymeg polisi yn y Canllawiau, yn enwedig gan fod hyn yn golygu nad oes ymrwymiad mwyach i adolygu rôl Llundain mewn cynyrchiadau rhanbarthol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig nad yw'r ymrwymiad hwn yn cael ei golli o'r Canllawiau.[148] Rydym ni'n dal o'r farn na ddylai'r math hwn o wybodaeth ymylol gael ei gynnwys yn y Canllawiau, gan nad yw'n helpu'r defnyddiwr yn uniongyrchol i gyflawni eu rhwymedigaethau. Mae rhagor o wybodaeth am ein bwriad i fonitro perfformiad y sector ac effeithiolrwydd y Canllawiau yn Adran 5 (gweler paragraffau 5.6-5.10).

Pwyntiau eraill a gafodd eu codi gan ymatebwyr

3.159 Hefyd, cawsom sawl cais am ragor o newidiadau nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag unrhyw un o'r meini prawf neu'r cynigion a amlinellwyd uchod. Roedd rhai o'r rhain yn

[147] Llywodraeth Cymru, tudalennau 2-3
[148] Indie Club, tud. 21; Llywodraeth yr Alban, tud. 3

ymwneud ag eithrio ailddarllediadau a rhaglenni newyddion o'r cwotâu, lefelau'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol a chyflwyno cwotâu cenedlaethol/rhanbarthol penodol ar gyfer rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a pha mor dda mae'r gwledydd a'r rhanbarthau'n cael eu cynrychioli a'u portreadu ar y teledu. Fel yr amlinellwyd yn yr Ymgynghoriad, ni fyddwn yn defnyddio’r adolygiad hwn o'r Canllawiau i geisio rhoi sylw i’r materion hyn. Maen nhw y tu allan i gwmpas yr adolygiad ac ni fyddwn yn rhoi sylw i hyn yn y datganiad hwn.

3.160 Y tu hwnt i hyn, roedd BBC yn meddwl y dylem ei gwneud yn glir nad yw rhaglenni sy'n cael eu prynu yn cael eu cynnwys yn y cwota. Gan nad yw rhaglenni sydd wedi cael eu prynu yn cael eu cynnwys a chan nad oedd hyn yn y Canllawiau yn flaenorol, rydym wedi rhoi geiriad ychwanegol er mwyn gwneud hyn yn glir.

3.161 Yn olaf, rydym ni’n nodi nad yw rhai rhanddeiliaid yn hoffi defnyddio’r term ‘cynyrchiadau rhanbarthol’. Maen nhw’n teimlo nad yw hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaglenni yn cael eu gwneud hefyd yng ngwledydd y DU. Hoffem ddweud eto fod y term ‘cynyrchiadau rhanbarthol’ yn cael ei nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, a phan fyddwn ni’n defnyddio’r term hwn, rydym ni’n cyfeirio at raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU y tu allan i'r M25, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

4. Newidiadau i'r cydymffurfio a gorfodi

4.1 Rydym ni'n cydnabod yn yr Ymgynghoriad fod angen gwella prosesau adrodd yn ôl a chydymffurfio Ofcom er mwyn i'r rhanddeiliaid fod â mwy o ffydd a hyder yn y drefn. Fe wnaethom nodi cynlluniau i wella prosesau casglu data ac adrodd yn ôl gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparu cyhoeddiadau data mwy cynhwysfawr, cymryd rhan mewn prosesau monitro rhagweithiol, a disgrifio'r broses gwyno'n glir. Er nad oes rhaid i ni ymgynghori ar ein prosesau mewnol, fe ddywedon ni yn yr Ymgynghoriad y byddem ni'n croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid am unrhyw ganlyniadau niweidiol nad oeddem ni wedi'u hadnabod a allai ddigwydd yn sgil y newidiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno i'n prosesau cydymffurfio a gorfodi.[149] Rydym ni wedi ystyried ymatebion y rhanddeiliaid, ac wrth wneud hynny, rydym ni'n dal o'r farn bod angen newid prosesau cydymffurfio ac adrodd yn ôl Ofcom. Mae'r adran hon yn crynhoi ac yn amlinellu ein newidiadau i ddiweddaru'r drefn cydymffurfio.

Yr hyn a ddywedon ni

Adrodd yn ôl a chyhoeddiadau

4.2 Fe wnaethom ni nodi yn yr Ymgynghoriad nad yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn gofyn am dystiolaeth ategol gan gyflenwyr ynghylch sut mae'r meini prawf wedi cael eu bodloni, ac efallai bod hyn wedi cyfrannu at yr anghysondebau yn y ffordd y mae'r cwmnïau cynhyrchu wedi ceisio bodloni'r meini prawf. Er mwyn ein helpu, fe wnaethom ni nodi ein bod wedi rhoi gwybod yn barod i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y bydd yn rhaid iddyn nhw ddechrau casglu rhagor o wybodaeth am sut mae cynyrchiadau'n bodloni'r meini prawf, a rhoi data ychwanegol i ni fel rhan o'u hadroddiad blynyddol (gweler 4.28). Fe ddywedon ni nad ydym yn credu ei fod yn ddigon dibynnu ar sicrwydd gan y cyflenwr yn unig, ac fe wnaethom ni annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ystyried a oes data ychwanegol y dylen nhw ei gasglu a'i gadw'n fewnol i helpu i roi tystiolaeth am gydymffurfio.

4.3 Fe wnaethom ni nodi'r awydd cyffredinol ymysg rhanddeiliaid mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth i weld Ofcom yn cyhoeddi mwy o ddata am gynyrchiadau rhanbarthol, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder o ran y ffordd mae'r cwotâu yn cael eu cyflawni. Mewn ymateb i hyn, fe wnaethom ni nodi ein cynlluniau i gynyddu ystod a faint o ddata rydym ni'n ei gyhoeddi, a dwyn ynghyd yr holl ddata perthnasol, gan gynnwys data cwota a data o'r Gofrestr o Deitlau Rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain ('y Gofrestr'), mewn un cyhoeddiad digidol rhyngweithiol y gall defnyddwyr ei ddefnyddio.[150]

---

[149] Ewch i C10 yn Adran 5 yn ein Hymgynghoriad.
[150] Ewch i baragraffau 5.73 i 5.75 yn ein Hymgynghoriad.

4.4 Ar hyn o bryd, rydym ni'n cyhoeddi dau gyhoeddiad sy'n rhoi manylion sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'u cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys pecyn cydymffurfio blynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus[151], sy'n nodi a yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud eu bod wedi bodloni eu cwotâu, a'r Gofrestr[152], sy'n rhestru'r holl raglenni mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi nodi eu bod yn cyfrannu at gyflawni eu cwotâu. Mae'r Gofrestr yn cynnwys gwybodaeth hefyd am ba un o'r tri maen prawf y llwyddodd y cynyrchiadau i'w bodloni, y cwmni cynhyrchu, a'r ardal ddaearyddol mae wedi cael ei neilltuo iddi.

Cwynion a monitro

4.5 Roeddem ni'n cydnabod pryderon rhanddeiliaid nad oedd proses gwyno glir ar hyn o bryd i dynnu sylw at gynyrchiadau sydd, ym marn rhanddeiliaid, heb eu cyflawni yn unol â'r Canllawiau. I ymateb i hynny, fe ddywedon ni ein bod yn bwriadu gwneud y broses gwyno'n glir yn y Canllawiau, drwy ychwanegu esboniad o'r broses gwyno bresennol (gan gynnwys sut byddwn yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau unrhyw gwynion), a drwy gynnig llwybr cliriach i randdeiliaid fynegi pryderon.

4.6 Awgrymodd rhai a ymatebodd i'n Cais am Dystiolaeth y dylai Ofcom fynd ati'n fwy rhagweithiol i fonitro a yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Fe wnaethom ymateb i hyn drwy amlinellu ein bwriad i gyflwyno prosesau monitro rhagweithiol, er mwyn gweld sut mae'r Canllawiau diwygiedig yn cael eu dehongli.[153] Fe ddywedon ni y byddai hyn yn digwydd drwy archwiliadau ad-hoc yn y fan a'r lle ar deitlau sy'n cael eu cyflwyno fel cynyrchiadau rhanbarthol, lle byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am gynyrchiadau penodol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn gweld beth sy'n eu gwneud nhw'n gynyrchiadau rhanbarthol.

Crynodeb o'r sylwadau

4.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar ein prosesau cydymffurfio a gorfodi yn gadarnhaol am ein newidiadau.[154] Roedd awydd cyffredinol ymysg rhanddeiliaid i Ofcom gasglu a chyhoeddi rhagor o wybodaeth, yn unol â'r hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem ni'n ei wneud yn yr Ymgynghoriad. Y farn oedd y byddai mwy o adrodd yn annog cydymffurfio ac atebolrwydd[155], a byddai cyhoeddi mwy o

[151] Yr Adroddiad Cydymffurfiad Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, 2018.
[152] Cofrestri o deitlau rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain.
[153] Ewch i baragraffau 5.76 a 5.77 yn yr Ymgynghoriad.
[154] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 5; Directors UK, tudalennau 8-10; Indie Club, tud. 22; Pact, tudalennau 9-10; TAC, tud. 6; Llywodraeth Cymru, tud. 6.
[155] Pact, tud. 8, Directors UK, tud. 8.

wybodaeth mewn cyhoeddiad gwell yn cynnig mwy o dryloywder o ran sut mae'r cwotâu yn cael eu cyflawni.[156]

4.8 Roedd cefnogaeth gyffredinol hefyd i'n cynlluniau i wneud y broses gwyno'n gliriach.[157] Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod ffordd Ofcom o ddelio â chwynion wedi bod yn ddiffyg amlwg yn y system, a mynegwyd awydd i weld proses ac amserlenni clir a rhesymol ar gyfer mynegi a datrys cwynion.[158] Yn y cyfamser, ac eithrio rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd yr ymatebwyr hynny a roddodd sylwadau am ein cynlluniau i fonitro, yn cytuno â'n cynlluniau[159], a chawsom awgrymiadau gan rai am sut mae mynd cam ymhellach.[160]

4.9 Mynegodd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bryderon ynghylch yr hyn roeddem ni wedi'i nodi yn yr Ymgynghoriad, yn enwedig o ran cadw a darparu gwybodaeth (mewn perthynas â'n gofynion adrodd, a'n gweithdrefnau cwyno a monitro).

4.10 Er enghraifft, roedden nhw wedi'u rhannu o ran a yw sicrwydd yn ddigonol ar gyfer cydymffurfio. Roedd Channel 4 yn credu ei fod, pan oedd mesurau eraill yn gefn i hyn.[161] Rhybuddiodd y byddai mynnu bod darlledwyr a chwmnïau cynhyrchu yn datblygu systemau newydd yn elfen ychwanegol ddiangen ac y gallai ddinistrio ymddiriedaeth yn y berthynas. Roedd Channel 5 yn teimlo y dylai Ofcom gydnabod y byddai'n rhaid i ddarlledwyr ddibynnu ar y sicrwydd er mwyn darparu gwybodaeth. [162] Awgrymodd os nad yw'r cynhyrchydd yn fodlon rhoi gwybodaeth o'r fath, y dylai Ofcom ystyried hynny wrth benderfynu ar y camau priodol yn erbyn y darlledwr.

4.11 Ar y llaw arall, roedd y BBC yn cytuno â ni nad yw dibynnu ar y sicrwydd rhwng y darlledwr a'r cwmni cynhyrchu yn ddigonol. Nododd fod y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynnu bod cynhyrchwyr yn cadw dogfennau digonol am chwe blynedd. I ymhelaethu ar hyn, dywedodd y BBC fod y mesurau a nodir yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus - ynghylch y disgwyl i gwmnïau cynhyrchu gadw cofnodion digonol am chwe blynedd a hawl darlledwyr i archwilio'r cofnodion pan fyddan nhw'n ei ystyried yn briodol – yn ddigon i leddfu pryderon Ofcom. Roedd o'r farn y dylem aros er mwyn gadael i'r prosesau hyn wreiddio cyn cyflwyno rhagor o ofynion adrodd neu wneud gwaith monitro.[163]

---

[156] BBC, tudalennau 29-30; Channel 4, tud. 16; Indie Club, tud. 22; Pact, tud. 10; Llywodraeth yr Alban, tud. 7; Directors UK, tud. 9.
[157] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 5; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 3; Directors UK, tud. 10; Pact, tud.10; Ymateb dienw 1, tud. 5; Ymateb dienw 2, tud. 13.
[158] Ymateb dienw 1, tud. 5; Ymateb dienw 2, tud. 13.
[159] Directors UK, tud. 10; Pact, tud. 10; Indie Club, tud. 22
[160] Indie Club, tud. 22
[161] Channel 4, tud. 16
[162] Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 7-8
[163] Y BBC, tudalennau 27-30

4.12 Holodd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus pa mor briodol oedd mynnu bod cwmnïau cynhyrchu yn darparu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif iddyn nhw.[164] Yn benodol, roedd Channel 5 yn credu mai cynhyrchwyr, ac nid darlledwyr yn uniongyrchol, ddylai gadw gwybodaeth ategol, am resymau ymarferol a chyfreithiol.[165]

4.13 Soniodd y BBC a Channel 4 hefyd am y posibilrwydd y gallai ein newidiadau arfaethedig, a fyddai'n mynnu eu bod yn cadw rhagor o ddogfennau, arwain at faich gweinyddol ychwanegol.[166] Awgrymodd ITV y gallai costau monitro o'r fath fod yn sylweddol, gan nodi nad oedd Ofcom wedi cynnal asesiad o'r effaith.[167] Dadl Channel 5 oedd y dylid cyfyngu ar ba mor bell yn ôl y gall Ofcom fynd wrth ofyn am wybodaeth am gynhyrchiad.[168]

4.14 Dywedodd Channel 4 a Pact ei bod yn bwysig bod Ofcom yn sicrhau bod cydbwysedd o hyd rhwng elwa ar fanteision adrodd yn well ac osgoi baich diangen ac effeithio ar sensitifrwydd masnachol a materion sy'n ymwneud â diogelu data.[169]

4.15 Roedd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn teimlo nad oedd yn eglur iawn pa fath o ddata y gallai Ofcom ofyn amdano, ac roedd yn rhaid iddyn nhw ofyn am ragor o arweiniad gan Ofcom.[170] Yn dilyn hyn, roedd Channel 4 a Channel 5 yn awyddus i wybod mwy am sut fyddai archwiliadau yn y fan a'r lle yn gweithio'n ymarferol.[171] Roedd Channel 4 yn cefnogi ein cynlluniau i gynnal archwiliadau yn y fan a'r lle, mewn egwyddor. Nododd eu bod eisoes yn cynnal nifer o archwiliadau yn y fan a'r lle bob blwyddyn gan ddefnyddio cwmni allanol arbenigol, ond pwysleisiodd fod ymarferoldeb a chymesuredd yn allweddol.[172]

4.16 Roedd rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Pact yn dadlau nad oedd Ofcom wedi rhoi digon o wybodaeth eto am y prosesau cwynion a monitro iddyn nhw wneud sylwadau yn eu cylch.[173] Dywedodd y BBC, Channel 4 ac ITV y dylem ymgynghori ar y broses gwynion a darparu gwybodaeth lawn (er bod Channel 4 wedi nodi y dylai hyn ond digwydd os oes newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae Ofcom yn delio â chwynion).[174] Roedd Channel 4 o'r farn hefyd fod angen rhagor o ymgynghori ynghylch ein gwaith monitro, yn dibynnu ar y math o wybodaeth rydym yn bwriadu gofyn amdano.[175]

4.17 Yn groes i natur betrus y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am i ni fynd gam ymhellach. Roedd yr Indie Club a Directors UK am weld

---

[164] Y BBC, tud. 31. ITV, tud. 13; Channel 4, tud. 16; Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 7
[165] Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 8-9
[166] Ymateb y BBC, tudalennau 30-31; Channel 4, tudalennau 16-17
[167] ITV, tud. 14
[168] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 8
[169] Channel 4, tud. 16; Pact, tudalennau 9-10
[170] Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 7; Channel 4, tud. 17
[171] Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 7- 8; Channel 4, tudalennau 16-17
[172] Channel 4, tud. 16
[173] Y BBC, tudalennau 28-29, tud. 32; ITV, tud. 15; Pact, tud. 10
[174] Ymateb y BBC, tudalennau 28-29, tud. 32; ITV, tud. 15; Channel 4, tud. 17
[175] Channel 4, tudalennau 16-17

adroddiadau manylach ynghylch defnyddio talentau oddi ar y sgrin[176], ac roedd amrywiol randdeiliaid eraill am i ni gasglu a chyhoeddi gwybodaeth fanylach.[177] Roedd yr Indie Club a Pact hefyd yn galw ar Ofcom i gynnal dadansoddiad manylach, gan gynnwys dadansoddiad o'r sector cynhyrchu teledu yn y DU a'r Gofrestr.[178]

4.18 Ymhlith y sylwadau eraill, dywedodd Tern fod angen i'n proses gwynion, yn ogystal â'n proses casglu data ac adrodd yn ôl, fod yn gyflymach.[179] Yn y cyfamser, awgrymodd yr Indie Club ein bod ni'n cynnig yr opsiwn o aros yn ddienw os oes angen, a rhoi amddiffyniad chwythu'r chwiban i achwynwyr.[180]

4.19 Yn olaf, ynghylch gorfodi, er bod yr Indie Club o'r farn y dylem ni gyflwyno dirwyon am gamddefnyddio rheoliadau[181], roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau yn eu herbyn ar y sail y byddai'r gost yn debygol o gael ei gosod yn erbyn cyllidebau rhaglenni yn y dyfodol. Yn lle hynny, roedden nhw'n argymell bod y gwerth a gollir i'r cwota o ganlyniad i'r cam-neilltuo yn cael ei ychwanegu'n ôl i'r gyllideb comisiynu rhaglenni y tu allan i Lundain ar gyfer y flwyddyn ganlynol.[182]

Ein hymateb

4.20 Nodwyd yn gynharach nad oes yn rhaid i ni ymgynghori ynghylch ein prosesau mewnol. Er bod hyn yn wir, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol nodi ein hymateb i'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid. Isod, rydym ni'n nodi ein prosesau presennol ar gyfer casglu a chyhoeddi data, cwynion a monitro, yn ogystal â'n rhesymeg dros y newidiadau rydym ni'n eu gwneud yn y maes hwn.

4.21 Fel y dywedon ni yn yr Ymgynghoriad, mae'n bosib bod diffyg goruchwylio, ac atebolrwydd, dros sicrhau bod cynyrchiadau wedi bodloni'r diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol, wedi cyfrannu at achosion o anghysondeb wrth roi'r Canllawiau ar waith. Mae'n bosib bod hyn, yn ei dro, wedi cyfyngu i ba raddau mae'r drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol wedi cyflawni bwriad y polisi, ac efallai ei fod wedi effeithio ar ffydd rhanddeiliaid yn y drefn. Rydym ni'n dal i gredu bod angen newid ffordd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

4.22 Yn y pen draw, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Mae angen iddyn nhw fod yn fodlon bod y meini prawf wedi cael eu bodloni cyn cyflwyno eu ffurflenni data i Ofcom. Yn ein barn ni, mae'r darlledwyr yn y sefyllfa orau i benderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen i roi sicrwydd iddyn nhw eu hunain mewn trafodaethau â'u cyflenwyr.

---

[176] Indie Club, tud. 22; Directors UK, tudalennau 8-9
[177] Llywodraeth yr Alban, tud. 7; Pwyllgor Cynghori Cymru, tud. 3; Pact, tud. 10
[178] Indie Club, tud. 7 a 22; Pact, tud. 10
[179] Tern, tud. 3
[180] Indie Club, tud. 22
[181] Indie Club, tud. 22
[182] Ymateb dienw 1, tudalennau 5-6; Ymateb dienw 2, tud. 13

4.23 Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n gyfrifol hefyd am ddarparu data cywir i Ofcom er mwyn dangos tystiolaeth o gydymffurfio. Mae angen y data hwn arnom ni fel ein bod yn fodlon bod y teitlau sy'n cael eu neilltuo fel cynyrchiadau rhanbarthol wedi bodloni'r meini prawf, ac wedi cael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau. Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ni, rydym ni wedi dechrau casglu rhagor o wybodaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o'u proses adrodd blynyddol (gweler 4.28).

4.24 Os oes gennym bryderon ynghylch teitl, byddwn ni’n gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (fel rhan o'n prosesau monitro a/neu gwynion) am gynyrchiadau er mwyn deall sut maen nhw’n bodloni'r meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.

4.25 Mae'r wybodaeth benodol y byddwn ni'n gofyn amdani yn amrywio fesul achos, gan ei fod yn dibynnu ar natur y teitl dan sylw. Er enghraifft, os yw cynhyrchiad wedi honni ei fod wedi bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch pryd gafodd y ganolfan ei sefydlu, a/neu fanylion y staff a oedd wedi'u lleoli yno yn ystod y cynhyrchiad ynghyd â'u swyddi. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y bydd yr wybodaeth rydym yn debygol o ofyn amdani yn ein helpu i ddeall sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gweithredu ein Canllawiau ac yn cydymffurfio â'u cwotâu. Dyma’r math o wybodaeth y byddai ei hangen ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain er mwyn bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio.

4.26 Mater i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw penderfynu ar y ffordd orau o gael y data sydd ei angen arnyn nhw gan gwmnïau cynhyrchu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Rydym ni'n credu y dylai'r darlledwyr allu cael gafael ar wybodaeth berthnasol gan gwmnïau cynhyrchu am sut mae teitl wedi cyflawni'r meini prawf fel sy'n angenrheidiol i ddangos eu bod yn cydymffurfio - fel y nodir yn y canllawiau ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Rydym ni'n nodi bod y canllawiau hyn yn dangos y dylai cwmnïau cynhyrchu gadw cofnodion perthnasol am chwe blynedd ar ôl cynhyrchiad.

4.27 Rydym ni'n cydnabod sylwadau rhanddeiliaid ac wedi eu hystyried, gan gynnwys mewn perthynas â’r goblygiadau posib o ran adnoddau wrth ddarparu gwybodaeth i Ofcom. Yn gyffredinol, bydden ni'n gofyn am wybodaeth rydym ni'n disgwyl y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chasglu’n barod er mwyn penderfynu pa rai o'r tri maen prawf maen nhw wedi’u bodloni, ac i roi sicrwydd iddyn nhw eu hunain eu bod yn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau trwydded perthnasol. Mewn achosion o'r fath, nid ydym yn credu y byddai’r baich ychwanegol yn sylweddol. Serch hynny, byddwn ni’n ystyried ym mhob achos yr wybodaeth rydym yn awyddus i’w chasglu er mwyn sicrhau bod Ofcom yn gallu monitro cydymffurfiad, ac a yw’n rhesymol gwneud hynny, ac asesu hyn ar sail achosion unigol. Ni fydd yr holl wybodaeth a gesglir, o reidrwydd, yn cael ei chyhoeddi, a byddwn ni’n ystyried a yw'n briodol gwneud hynny ym mhob achos.

Adrodd yn ôl a chyhoeddiadau

4.28 Fel y nodir uchod, rydym eisoes yn cynyddu faint o ddata rydym ni'n ei gasglu gan ddarlledwyr.[183] Yn benodol, rydym ni'n gofyn i ddarlledwyr roi cod post y ganolfan sylweddol ar gyfer cynyrchiadau sydd wedi bodloni'r maen prawf hwn, a'r is-ranbarth lle cafodd y ddau faen prawf arall eu bodloni ar gyfer teitlau a ddarlledwyd o fis Gorffennaf 2018 ymlaen. Ar gyfer teitlau a ddarlledwyd o fis Ionawr 2019 ymlaen, rydym hefyd wedi gofyn i ddarlledwyr adrodd am ganran y gyllideb cynhyrchu a oedd wedi'i gwario y tu allan i Lundain a chanran y talentau oddi ar y sgrin a oedd yn cael eu cyflogi o'r tu allan i Lundain (ar gyfer cynyrchiadau sy'n bodloni'r meini prawf hyn).

4.29 Yn ogystal â'r wybodaeth hon, rydym ni wedi penderfynu cyflwyno pwynt data newydd sy'n cyd-fynd â'n penderfyniad ynghylch y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Fel sydd wedi'i esbonio ym mharagraffau 3.26-3.28, rydym ni wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig i fynnu bod canolfan sylweddol yn weithredol cyn i'r comisiwn ddigwydd, ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddwn ni'n gofyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi gwybod i ni a oedd y ganolfan sylweddol honno ar agor cyn i'r comisiynu ddigwydd, ar gyfer rhaglenni lle mae'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol wedi cael ei fodloni. Rydym ni hefyd yn bwriadu gofyn am wybodaeth i weld a oedd y swyddfeydd, yn yr achosion hyn, wedi aros ar agor, ac a lwyddwyd i sicrhau rhagor o gomisiynau o'r canolfannau hynny. Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r sefyllfa dros amser, ac i benderfynu a oes angen i ni wneud rhagor o newid i'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol.

4.30 Gan ein bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen, ar hyn o bryd, â'n cynnig y dylai canolfan sylweddol fod yn weithredol cyn i'r comisiwn ddigwydd a'n bod, fel y nodir uchod, yn casglu rhagor o wybodaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ni fyddwn ni'n cyflwyno'r gofyniad a gynigiwyd yn yr Ymgynghoriad y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nodi'r flwyddyn y cafodd y ganolfan sylweddol ei sefydlu.

4.31 Ochr yn ochr â newidiadau i'r broses adrodd, byddwn ni'n cyhoeddi'r holl ddata perthnasol mewn un cyhoeddiad digidol rhyngweithiol y gall defnyddwyr ei ddefnyddio, i'w gwneud hi'n haws i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd o ddiddordeb iddyn nhw.[184] Rydym ni'n credu y bydd ein penderfyniad i gasglu a chyhoeddi rhagor o wybodaeth ac i newid y ffordd rydym ni'n cyflwyno'r data yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yn well sut mae cynyrchiadau'n bodloni'r meini prawf ac yn cyflawni'r cwotâu. Dylai hyn, yn ei dro, sicrhau mwy o hyder a ffydd yn y system.

---

[183] Ewch i'r Ymgynghoriad, paragraff 5.69.

[184] Bydd y cyhoeddiad yn cynnwys yr un wybodaeth a gafodd ei chynnwys mewn fersiynau blaenorol o'r Gofrestr, yn ogystal â rhywfaint o'r wybodaeth newydd rydym ni'n gofyn amdani, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol o becyn cydymffurfio blynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cwynion a monitro

4.32 Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn gwybod sut mae cyflwyno eu pryderon i ni, fel ein bod yn gallu ystyried y mater. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y drefn yn effeithiol, a'n bod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio, lle bo hynny'n briodol. Am y rheswm hwn, rydym wedi'u cynnwys dolenni yn y Canllawiau a fydd yn mynd ag unigolion i'r ffurflenni cwyno perthnasol, sydd ar ein gwefan hefyd.[185] Bydd hyn yn rhoi llwybr clir i randdeiliaid allu cyflwyno cwynion.

4.33 Er mwyn bod yn glir, nid ydym yn newid y broses, nac yn rhoi proses newydd ar waith, ar gyfer sut rydym ni'n delio â chwynion. Yn hytrach, ein nod yw sicrhau bod ein proses bresennol yn glir i randdeiliaid. Ar hyn o bryd, mae Ofcom yn dilyn fframwaith presennol ar gyfer ymchwiliadau sy'n ymwneud â chynyrchiadau rhanbarthol, ar sail cwynion ac sydd wedi'u cychwyn gan Ofcom. Dyma ein gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu ('y Gweithdrefnau Cyffredinol')[186], sy'n berthnasol i nifer o ofynion rheoleiddio a roddir ar ddarlledwyr, gan gynnwys gofynion i gyflawni cwotâu cynhyrchu a rhaglenni. Mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, ac fe gafwyd ymgynghoriad arnyn nhw pan gawson nhw eu cyflwyno am y tro cyntaf. Rydym ni o'r farn felly nad oes angen rhagor o ymgynghori.

4.34 Dylai unrhyw un sydd am wneud cwyn lenwi ffurflen cwynion drwy wefan Ofcom. Os ydym yn credu bod digon o dystiolaeth wedi cael ei rhoi fel bod gennym ni bryderon am deitl, mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn nodi'r camau y bydden ni'n eu cymryd i archwilio'r mater. Os ydym ni'n credu y dylem ni fwrw ymlaen â chwyn oherwydd achos posib o dorri amod trwydded, byddwn ni'n mynd drwy'r camau Asesiad Cychwynnol, Ymchwilio a Sancsiynu yn ôl yr angen, fel y nodir yn y Gweithdrefnau Cyffredinol. Byddwn yn adrodd ar ganlyniad unrhyw gwynion sy'n cyrraedd y cam Asesiad Cychwynnol yn y Bwletin Darlledu ac Ar Alwad.[187]

4.35 Drwy fanylu ynghylch ein gweithdrefnau cwynion ac adrodd yn ôl ar ganlyniad unrhyw achosion, rydym ni'n gobeithio sicrhau mwy o dryloywder i randdeiliaid a gwneud i randdeiliaid deimlo'n ffyddiog y bydd unrhyw faterion sy'n codi, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r cwotâu, yn cael eu hasesu'n briodol.

---

[185] D.S. Mae ffurflenni ar wahân ar gyfer y rheini sydd am wneud cwyn am y ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran rhaglenni neu gynyrchiadau rhanbarthol, ac i'r rheini sydd am gwyno am y ffordd mae un o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol (ITV, STV, Channel 4 a Channel 5) yn cyflawni eu dyletswyddau o ran rhaglenni neu gynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar wefan Ofcom yma.

[186] Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu (Ofcom, 2017). Mae gennym ni set ar wahân o Weithdrefnau Cyffredinol ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r BBC: Gweithdrefnau ar gyfer gorfodi gofynion yng Nghytundeb Fframwaith y BBC a chydymffurfiad â chamau gorfodi Ofcom (Ofcom, 2017).

[187] Mae Bwletin Darlledu ac Ar Alwad Ofcom yn adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau i achosion posib o dorri codau a rheolau Ofcom yng nghyswllt rhaglenni teledu, radio a fideo ar alwad, yn ogystal ag amodau'r drwydded y mae'n rhaid i ddarlledwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom gydymffurfio â nhw: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/broadcast-bulletins.

4.36 Rydym ni hefyd wedi nodi'n glir yn y Canllawiau mai'r egwyddor a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith - 'BBC yn gyntaf'[188] - fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chynyrchiadau'r BBC, er ein bod yn gallu ystyried cwynion yn gyntaf o dan amgylchiadau eithriadol. Yn unol â'n Gweithdrefnau Cyffredinol, os bydd achwynwyr yn gwneud cais i aros yn ddienw, byddwn yn ystyried y ceisiadau hyn fesul achos. Dylai rhanddeiliaid nodi bod Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân sy'n cynnig cyngor i chwythwyr chwiban.[189]

4.37 Er mwyn deall yn well sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dehongli'r Canllawiau a sut mae cynyrchiadau'n diwallu'r meini prawf, rydym ni hefyd yn parhau i ystyried ei bod hi'n briodol cyflawni prosesau monitro rhagweithiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni weld sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio'r Canllawiau presennol, a sut maen nhw'n dehongli'r Canllawiau diwygiedig ar ôl iddyn nhw ddod i rym (gweler paragraff 5.4). Rydym ni'n parhau i gredu mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy archwiliadau rhesymol a chymesur yn y fan a'r lle ar deitlau sy'n cael eu cyflwyno fel cynyrchiadau rhanbarthol. Bydd y broses fonitro yn annog cadw cofnodion gwell a mwy o atebolrwydd hefyd.

4.38 Yn gyffredinol, pan fyddwn yn cynnal archwiliad yn y fan a'r lle, byddwn ni'n gofyn i'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol am ragor o wybodaeth i ddeall ar ba sail maen nhw wedi dweud bod teitl yn un rhanbarthol. Fel y soniwyd, mae'r math o wybodaeth y byddwn ni'n gofyn amdano yn gallu amrywio, yn ôl natur yr achos.

4.39 Os ydym yn credu bod angen asesu teitl ymhellach, mae'r gweithdrefnau perthnasol yn nodi'r camau y bydden ni'n eu cymryd i archwilio'r mater.

4.40 Gall Ofcom gymryd camau gorfodi os:

a) bydd y trwyddedai'n methu cyflawni cwota ei drwydded ar gyfer gwariant neu oriau gan nad yw'r teitl perthnasol yn cael ei gynnwys yn y cwotâu mwyach, neu

b) os yw'r trwyddedai wedi rhoi gwybodaeth anghywir i Ofcom fel rhan o'i ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth.

Mewn achosion o'r fath, byddem ni'n ystyried rhoi sancsiynau i'r trwyddedai. Gall sancsiynau amrywio o Benderfyniad Torri Amodau ym Mwletin Darlledu Ofcom, i gyflwyno cosb ariannol. Y gosb ariannol fwyaf y gallwn ni ei rhoi i'r BBC yw £250,000. I ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gallwn roi cosb o hyd at 5% o'r 'refeniw cymwys'. Yn unol â'n gweithdrefnau gorfodi eraill, byddwn ni'n ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys difrifoldeb yr achos, wrth benderfynu pa lefel o sancsiwn sy'n angenrheidiol.

---

[188] Fel arfer, bydd Ofcom yn ystyried cwyn dim ond ar ôl i'r cwyn gael ei datrys yn y lle cyntaf gan y BBC. Ewch i Siarter y BBC (Adran 56 (3)) a Chytundeb Fframwaith y BBC (Adran 56 (4)(a)).

[189] Ewch i Adran 3: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/102514/Advice-for-complainants.pdf

5. Y camau nesaf

Trefniadau pontio

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

5.1 Roeddem ni'n cydnabod yn yr Ymgynghoriad bod cyfnod hir cyn cwblhau rhaglenni yn aml iawn, a bod y penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud ymhell cyn y bydd rhaglen yn cael ei darlledu yn y pen draw. Ac ystyried y byddai effaith y newidiadau a gynigir yn amrywio, yn dibynnu ar sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u cyflenwyr wedi bod yn dehongli'r Canllawiau hyd yma, roeddem ni'n cynnig bod y Canllawiau ar eu newydd wedd a'r mwyafrif o'r newidiadau yn dod i rym gyda theitlau sy'n cael eu darlledu o fis Ionawr 2020 ymlaen.[190]

Crynodeb o'r sylwadau

5.2 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i'r newidiadau ddod i rym gyda theitlau sy'n cael eu darlledu o fis Ionawr 2020 ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, a oedd yn teimlo y dylai'r Canllawiau ar eu newydd wedd ddod i rym gynted ag sy'n ymarferol bosib, a ddim hwyrach na 2020, gan eu bod yn teimlo mai newid y drefn yn gynnil oedd y newidiadau roeddem ni'n eu cynnig, yn hytrach na newidiadau oedd â'r bwriad o ddwyn newid mawr.[191] Roedd Pact yn cytuno hefyd, ond nododd na ddylai cynhyrchwyr, ar gyfer teitlau sydd i fod ar yr awyr yn 2020 sydd eisoes wedi'u comisiynu, orfod cydymffurfio â'r meini prawf sy'n wahanol iawn i'r rheini a oedd yn berthnasol adeg y comisiynu.

5.3 Gan gadw hyn yn y cof, roedd y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 yn anghytuno â'r trefniadau pontio a gynigiwyd. Roedden nhw'n dweud bod cyfran sylweddol o'u hamserlenni yn 2020 eisoes wedi'i chomisiynu gan ddilyn y Canllawiau presennol.[192] Awgrymodd y rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y dylai'r newidiadau ddod i rym o fis Ionawr 2021 ymlaen, gydag eithriad ar gyfer unrhyw beth sy'n cael ei gomisiynu cyn i'r Canllawiau ar eu newydd wedd gael eu cyhoeddi neu cyn 2020. Ar ben hynny, awgrymodd ITV y dylai unrhyw gyfresi sy'n dychwelyd, sydd wedi cael buddsoddiad cyfalaf sylweddol, gael eu heithrio o gyfnod ad-dalu'r buddsoddiad hwnnw. Awgrymodd Channel 4 y gallai'r Canllawiau ar eu newydd wedd fod yn berthnasol i deitlau sy'n cael eu comisiynu o fis Ionawr 2020 ymlaen, yn hytrach na theitlau sy'n cael eu darlledu o 2020 ymlaen.

---

[190] Roedd hyn yn eithrio rhai o'r newidiadau i'r data y byddai'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei gasglu a'i adrodd yn ôl i Ofcom. Fe wnaethom ni gytuno â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar hyn cyn yr ymgynghoriad.
[191] Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 5
[192] Y BBC, tud. 33; ITV, tudalennau 15-16; Channel 4, tudalennau 17-18, Viacom International Media Networks/Channel 5, tud. 8

Ein penderfyniad

5.4 Rydym ni'n derbyn dadleuon y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Pact y byddai'n anymarferol defnyddio'r Canllawiau ar eu newydd wedd gyda theitlau sydd eisoes wedi'u comisiynu. Gyda chyfran sylweddol o amserlenni'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn 2020 eisoes wedi'i chomisiynu, rydym wedi penderfynu caniatáu cyfnod pontio hwy cyn y bydd y Canllawiau ar eu newydd wedd yn dod i rym. Gan fod cwotâu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyfrifo yn ôl yr hyn sy'n cael ei ddarlledu mewn blwyddyn galendr, rydym ni wedi penderfynu y bydd y Canllawiau ar ei newydd wedd yn berthnasol i deitlau sy'n cael eu darlledu o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

5.5 Os oes unrhyw deitlau sydd i fod i gael eu darlledu o 2021 ymlaen eisoes wedi cael eu comisiynu cyn 1 Gorffennaf 2019, byddai'n dderbyniol iddyn nhw gyfrif fel rhai rhanbarthol ar sail y Canllawiau blaenorol. Ond, ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu hail-gomisiynu, dylai'r rhain gael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau ar eu newydd wedd, pa un ai eu bod wedi cael buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn flaenorol neu beidio. Gallai'r cyfnodau ad-dalu ar gyfer buddsoddiadau o'r fath fod yn hir, a byddai caniatáu eithriadau o'r fath yn golygu y bydd amser yn mynd heibio cyn i ni allu gweld budd ein newidiadau.

Arolwg monitro'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus/y diwydiant

5.6 Yn yr Ymgynghoriad, fe wnaethom ni awgrymu comisiynu arolwg o gynhyrchwyr cynyrchiadau rhanbarthol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Nod yr arolwg hwn oedd deall mwy am y gymysgedd o dalent ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn cynyrchiadau rhanbarthol, ac wrth eu comisiynu, ac roeddem ni'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i amrywiaeth eang o randdeiliaid.

5.7 Cawsom ni adborth amrywiol gan randdeiliaid am yr awgrym hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig gan eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig asesu cydbwysedd y rolau sydd wedi'u lleoli yn Llundain ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[193] Roedd y rhanddeiliaid hyn yn awyddus i ddeall mwy am sut mae talentau wedi'u dosbarthu ar draws y DU. Roedd rhai'n cynnig awgrymiadau ymarferol hefyd, fel cynnwys gweithwyr llawrydd yn ogystal â staff cynhyrchu yn yr arolwg i gael darlun cyflawn.[194]

5.8 Yn groes i hyn, cafodd y cynnig ei feirniadu hefyd gan rai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedden nhw'n bryderus am y baich gweinyddol ychwanegol yn sgil casglu'r wybodaeth hon, na fyddai'n fuddiol iawn, yn eu barn nhw.[195] Roedd y BBC ac ITV yn holi hefyd pam mae arolwg o'r fath yn angenrheidiol neu'n briodol o dan ein dyletswyddau

[193] Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon, tud. 2; Pwyllgor Cynghori'r Alban, tud. 2; Directors UK, tud. 9; Pact, tud. 4; Llywodraeth yr Alban, tud. 4; Indie Club, tud. 19; Llywodraeth Cymru, tud. 5
[194] Directors UK, tud. 9; Llywodraeth yr Alban, tud. 4; Pact, tud. 4
[195] Y BBC, tudalennau 31-32; ITV, tud. 14; Channel 4, tud. 17; Viacom International Media Networks/Channel 5, tudalennau 8-9

statudol.[196] Ar ben hynny, gofynnodd Channel 4 pa mor fuddiol fyddai cynnal yr arolwg nawr, cyn i’r Canllawiau ar eu newydd wedd ddod i rym, a hefyd cyn bod modd gwireddu manteision cynlluniau diwydiant byw (e.e. 4 All the UK, datblygiad The Farm).[197]

5.9 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mewn trafodaethau â rhanddeiliaid, fe wnaethom ni hefyd ystyried ymarferoldeb comisiynu'r gwaith hwn yn awr. Un o'r prif bryderon sydd wedi dod i’r amlwg yw nad oes gan gynhyrchwyr a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yr holl ddata roeddem ni wedi bwriadu ei gasglu. O’r herwydd, mae'n debygol mai dim ond set anghyflawn o ddata y byddem ni’n gallu ei gasglu, a dim ond hyn a hyn o werth y byddai hynny’n ei gynnig. Rydym ni hefyd yn ymwybodol y byddai gofyn i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r cynhyrchwyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn creu baich ychwanegol iddyn nhw.

5.10 Felly, wrth ystyried y cyfyngiadau ymarferol a barn rhanddeiliaid, ynghyd ag amseru cyflwyno ein newidiadau i'r drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, rydym wedi penderfynu nad nawr yw'r amser gorau i gynnal arolwg o'r fath. Fe wnawn ni ddisgwyl i'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r drefn, yn ogystal â datblygiadau perthnasol y diwydiant, wreiddio. Awn ati wedyn i ystyried defnyddio arolwg o’r fath i bwyso a mesur sut mae'r diwydiant yn datblygu os bydd angen. Ar ben hynny, fel yr eglurir uchod, rydym eisoes wedi dechrau casglu mwy o ddata gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch eu cynyrchiadau rhanbarthol, a byddwn yn casglu rhagor o wybodaeth hefyd ynghylch canolfannau sylweddol sy'n agor ar ôl y pwynt comisiynu. Bydd y data newydd yn helpu hefyd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae'r sector yn gweithio, a byddwn ni’n cyhoeddi rhywfaint o hyn fel rhan o’n proses adrodd yn ôl flynyddol.

[196] Y BBC, tudalennau 31-32; ITV, tud. 14
[197] Channel 4, tud. 17